



ECO'r Wyddfa

Rhif: 411
Mehfin 2013
Pris: 50c

App Rwdlan a Phenblwydd WCW.

Roedd plant Ysgol Gynradd Llanrug yn falch iawn o fod yn rhan o ddatliad arbennig ddiwedd Mai. Roedd y cylchgrawn 'WCW' yn 30 oed!

Fel rhan o'r dathliad roedd y cylchgrawn Golwg wedi lansio 'App' ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r app yn cynnwys detholiad o storïau gwreiddiol gan Angharad Tomos am y cymeriad hoffus 'Rwdlan'.

Mae hwn y gyfle newydd i weld deunyddiau digidol Angharad yn cyfoethogi'r casgliad cynyddol o apps Cymraeg ar wefan 'Appstore' cwmni Apple. Mae'n briodol fod yr 'app' Cymraeg arbennig hwn yn cael ei lansio yn Ysgol Gynradd Llanrug. Mae'r ysgol yn un ganolfanau hyfforddi rhanbarthol Apple yng Nghymru.

Sefydlwyd y ganolfan yn 2002 fel rhan o rwydwaith RTC Apple yn Ewrop i hyrwyddo datblygiadau newydd mewn TGaCh ac i hyfforddi a chymhwyso athrawon.

Yr unig ganolfan bellach sy'n

cynnig hyfforddiant TGaCh drwy gyfrwng y Gymraeg. Dewch i ymuno â Rwdlan, y wrach fach ddireidus o Wlad y Rwla, am hwyl a sbri.

Dyma app newydd i blant bach yn seiliedig ar hynt a helynt cymeriad hoffus Rwdlan – un o gymeriadau amlycaf cylchgrawn 'Wcw a'i Ffrindiau'. Mae'r app yn cynnwys cyfres o straeon byrion yn dilyn helyntion Rwdlan a'i ffrindiau, gyda chyfle i blant liwio'r lluniau ar y sgrin. Yn ogystal â bod yn hwyl, mae'r app yn un addysgiadol sy'n hybu llythrennedd, rhifedd ac adnabyddiaeth o liwiau.

Er mai app Cymraeg ydy hwn, gall rhieni di-Gymraeg ymuno â'r hwyl trwy danio cyfieithiad Saesneg o'r straeon.

Daw 5 stori yn rhad ac am ddim gyda'r app sylfaenol, a chyfle i brynu rhagor am bris rhesymol.



CYMRAEG GAN LYWODRAETH CYMRU.

Yn dilyn gwrthwynebiad yr "Eco" i gyhoeddi logo a slogan dwyieithog Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r grant ariannol a dderbynnir ganddynt, daeth cadarnhad yn ystod y mis diwethaf y gellir cynnwys y geiriad Cymraeg yn unig. Derbyniwyd cefnogaeth i benderfyniad yr "Eco" gan rai papurau bro eraill, a diolch iddynt am eu safiad.

Yn unol ac amodau'r grant ariannol, rydym yn cynnwys y geiriad Cymraeg yn unig y mis hwn (gweler tudalen 2).

Gyda diolch i Lywodraeth Cymru am fod mor barod i newid eu safiad ynglŷn â hyn. Diolch hefyd am y gefnogaeth ariannol.

Ond cofiwn hefyd mai bychan yw'r grant ariannol, a rhaid cydnabod yr un mor ddiolchgar y cyfraniadau a dderbynnir yn flynyddol gan bob un o gynghorau cymuned y fro – a hynny'n ddi-amod. Diolchwn hefyd i'r holl unigolion sy'n cyfrannu rhoddion yn fisol tuag at gynnal y papur. Mae eich cefnogaeth chwithau yr un mor werthfawr.

Rhifyn
Gorffennaf

Copi i law
Mehefin 16

Plygu
Mehefin 27

Ble
Bethel

LLYTHYRAU

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Annwyl Olygydd,

Byddwn yn ddiolchgar am le bach yn eich colofnau i wahodd eich darllenwyr i gefnogi ein Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ffordd ymarferol. Credaf mai sefydlu'r Coleg hwn – sy'n gweithredu drwy'r rhan fwyaf o Brifysgolion Cymru – yw un o'r pethau pwysicaf a wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma, a bydd yn sicrhau bod addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael bellach o'r Ysgol Feithrin i'r Brifysgol.

Eisoes mae myfyrwyr o ddalgylch y papur hwn yn manteisio ar gyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan y Coleg Cymraeg, ac y mae cyllid a staff ar gael i ehangu nifer y cyrsiau o flwyddyn i flwyddyn. A sut fedrwn chi helpu? Trwy Gronfa William Salesbury, a sefydlwyd er mwyn rhoi cyfle i bobol Cymru gefnogi gwaith y Coleg Cenedlaethol Cymraeg.

Bydd y Gronfa hon yn cynnig Ysgoloriaethau ychwanegol i fyfyrwyr sy'n astudio'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, a gellwch anfon eich cyfraniadau at Y Trysorydd, Cronfa William Salesbury, Blaenyresgair, Ffair Rhos, Ystrad Meurig SY25 6BS. Os am ragor o wybodaeth am waith y Coleg ei hun, anfonwch at Arwel Lloyd, Swyddfa'r Coleg, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ.

Yn gywir,

Dafydd Iwan, Rhos-bach

(ar ran fy nghyd-Ymddiriedolwyr: John Gwilym Jones, Menna Machreth, John Watkin, Meredydd Evans, Angharad Mair, Catrin Dafydd, Fflur Jones a Ieuan Wyn)

Cronfa Goffa R.H. Owen

Daeth bron yn amser unwaith eto i wneud ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod a charwn eich hysbysu o rai ffeithiau parthed hyn.

Rhoir grantiau i ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug, sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol, sef y plwyfi a ganlyn: Waunfawr, Llanrug, Llanddeiniolen a Llanberis.

Eleni, fe hysbysir am y grantiau yn rhifynnau Gorffennaf a Medi o Eco'r Wyddfa a bydd y dyddiad cau ar Fedi 30ain 2013.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd wythnos yr Eisteddfod bron dirwyn i ben. Dymunwn yn dda i'r cystadleuwyr - yn blant a phobl ifanc yr ardal, a gobeithio y cawn eu llongyfarch yn rhifyn nesaf yr 'Eco' ar eu llwyddiannau.

Clod i unigolion o'r fro.

Llongyfarchiadau i Annette Bryn-Parri a Malcolm Allen, y ddau o Ddeiniolen, ar eu derbyn i fod yn aelodau o Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Fe'u derbynir yn aelodau llawn yn Ninbych fis Awst.

Llongyfarchiadau hefyd i Sue a Bleddyn Wynn-Jones, Fferm Crug ar ennill medal aur yn Sioe Flodau Chelsea.

Daeth y newyddion am y llwyddiannau hyn fel roedd yr "Eco" yn mynd i'r wasg, ac nid oedd cyfle i gael lluniau.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn

- o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50

- gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

RHIF 411

Mehefin 2013

Argraffwyd gan

Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i

Dafydd Whiteside Thomas

Bron y Nant, Llanrug

01286 673515

ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED:

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£25: Mrs S. Haq, Imran ac
Iram, Clwt y Bont.

£10: Mrs Mona H. Griffiths,
2 Hafan Elan, Llanrug; John
a Rhian Ellis, Ty'n Llidiart,
Waunfawr; Iorwerth Evans,
5 Hafod Olau, Deiniolen;
Er cof am Mrs Margaret
Olwen Jones, 21 Dôl Afon,
Cwm-y-glo; Gwyn Hefin
ac Ifanwy Jones, Rhandir,
Brynrefail; Eluned Jones,
Mochdre, er cof am Hetty a
Bob, Llanberis.

£9.50: Eleri Wyn Jones,
Llanelwy.

£5: Di-enw, Llanrug;
Valmai Owen, 2 Rhos
Elan, Llanrug; Nancy a
Gwynedd Williams, 2
Bro Waun, Waunfawr;
Eurwen Roberts, 47
Rhydfadog, Deiniolen; Er
cof am Brenda, Rhydfadog,
Deiniolen; Mona Jones 17
Dôl Eilian, Llanberis; Jenny
Davies, Tregaron; Enid
Jones, Talysarn.



Arddangosfa Clwb Camera Caernarfon.

Agorwyd yr arddangosfa gan lywydd y clwb, Bobby Haines M.B.E. sydd ar y dde gyda cadeirydd y clwb, Richard Jones. Mae'r arddangosfa i'w gweld i fyny'r grisiau yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, ac mae ar agor hyd 29ain o Fehefin rhwng 9.30 y bore a 5.30 yr hwyr.

'Salem' gartref

Mae darluniad Sidney Curnow Vosper o Siân Owen yn ymlwybro ei ffordd i'w set capel yn 'Salem' yn un o weithiau celf amlycaf Cymru. Ond faint ohonon ni sydd â chopi yn hongian gartref, a beth mae'r darlun yn ei olygu i ni bellach?

Ar hyn o bryd, mae Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn paratoi arddangosfa sy'n bwrw golwg ar bwysigrwydd yr eicon Cymreig yma ac maent yn awyddus i'r cyhoedd gymryd rhan. Daeth y llun dyfrlliw sy'n dyddio'n ôl i 1908 i'r amlwg pan y'i defnyddiwyd i farchnata sebon 'Lever Brothers' Sunlight Soap' gyda phobl yn gallu casglu talebau o'r paced i hawlio copi o'r llun.

Dywedodd Esther Roberts, Curadur Amgueddfa ac Oriel Gwynedd:

'Rydan ni eisiau gweld pa mor bwysig ydi "Salem" i bobl y dyddiau yma ac rydan ni'n gofyn i aelodau'r cyhoedd i anfon ffotograffau sy'n dangos lle mae eu copi nhw yn hongian yn eu cartref neu waith. Fel arall byddem yn hapus i ymweld a thynnu llun camera o'ch "Salem".

'Bydd y ffotograffau yma, ynghyd ag ymatebion i'w ddelwedd, yn rhan o'r arddangosfa a fydd yn cynnwys y llun dyfrlliw gwreiddiol, sydd wedi ei fenthylg o Oriel Gelf Arglwyddes Lever, Port Sunlight.'

Mae "Salem", wrth gwrs, yn darlunio bore Sul yn y capel bychan yng Nghefncymerau, Llanbedr, ger Harlech, ac mae'n canolbwyntio ar Sian Owen, Ty'n y Fawnog. Mae diddordeb wedi bod yn y llun ers blynnyddoedd lawer, gyda chred fod wyneb y diafol i'w weld ym mhlyg y siôl y mae Siân Owen yn ei wisgo.

Bydd arddangosfa "'Salem' gartref" a fydd i'w gweld yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd o 29 Mehefin tan 12 Hydref 2013 yn dathlu'r llun ac yn bwrw golwg ar sut mae'n parhau i fod yn rhan bwysig mewn cartrefi trwy Gymru hyd heddiw.

Dywedodd y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am y celfyddydau a threftadaeth:

'Mae'r ffaith fod

atgynhyrchiadau o "Salem" wedi eu defnyddio fel arf marchnata gan gwmni sebon ynghyd â'r gred fod modd gweld y diafol yn siôl Siân Owen yn golygu fod dyfrlliw Vosper wedi datblygu i fod yn un o weithiau celf amlycaf Cymru.

'Mae'n gwbl briodol felly fod Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn trefnu arddangosfa unigryw i fwrw golwg ar ein perthynas gyda'r gwaith sy'n darlunio capel yng Ngwynedd wledig yn fuan yn y ganrif ddiwethaf. Bydd yn ddiddorol gweld faint ohonon ni sydd bellach yn berchen copi o'r gwaith celf eiconig hwn ac os bydd yn parhau i fod yn rhan annatod o'n Cymreictod yn y 21ain ganrif.'

Bydd arddangosfa "'Salem' gartref" i'w weld yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor o 29 Mehefin hyd 12 Hydref 2013. Cysylltwch ag Esther Roberts yn yr Amgueddfa ar 01248 353 368 neu e-bostio: amgueddfa@gwynedd.gov.uk erbyn 14 Mehefin os ydych yn awyddus cymryd rhan yn yr arddangosfa.

Pwy bia'r chwareli?

— y cam nesa.

Mae erthygl Alun Hughes yn yr Eco ar 'Pwy bia'r chwareli?' wedi ysgogi sawl un. Llauer wedi gofyn y cwestiwn hollol resymol — be' ddylia ni 'neud?

Ei her oedd — 'Mae'n hen bryd i ni fel cymuned benderfynu ar pwy sydd am gael yr hawl i'n hadnoddau naturiol. Pwy sydd am gael yr hawl i wneud ffortiwn yn cynhyrchu trydan yn ein hardal?'

Wel mae pethau ar droed gyda chriw bach gweithgar wedi dod at ei gilydd i greu cwmni cymunedol i edrych ar ffyrdd o gynhyrchu ynni yn ein hardal — er budd y cymdeithas. Mae Alun yn sôn am ffortiwn, wn i ddim am hynny, ond mae 'na elw sylweddol i'w wneud o gynhyrchu trydan er ein budd ni.

Fel y dywedodd Alun yn ei erthygl, mae'r holl elw o bob un cynllun cynhyrchu yr ardal yn llifo dramor ar hyn o bryd. Rhaid i ni gymryd yr awenau gan roi Dyffryn Peris a'i phobl yn gyntaf. Mae ffyrdd o godi arian ar gael i gwmni cymunedol ond nid ar gyfer unigolion na chwmnïau preifat. Bydd yr holl elw a wneir gan y cwmni newydd hwn yn dod yn ôl i'r gymuned.

Mae gennym un adnodd pwerus iawn, sef dŵr. Mae afonydd y dyffryn yn disgyn gannoedd o droedfeddi ac o ddefnyddio'r ynni hwnnw gyda phwerdai hydro bach mae'n bosib cynhyrchu trydan gwerthfawr a'i werthu i'r grid cenedlaethol. Wrth gwrs bydd rhaid gwneud ymchwil manwl a chael cydweithrediad y tirfeddianwyr i wireddu'r cynlluniau. Dyddiau cynnar iawn yw rhain ond fe gewch wybod sut mae pethau'n datblygu drwy ddarllen yr Eco. Ond hefyd fe fyddwn yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus yn ein cymunedau yn y dyfodol agos i esbonio beth yw ein bwriad a sut y byddwn yn symud ymlaen.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

**BARRYS
GLASS**

**FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC**

**Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"**

Trwsio a Gosod Gwydr

**(01286) 872772
Symudol- 07840 794269**



Dr Williams yn ail-ddarllen y llythyr a dderbyniodd gan Syr Alex Ferguson.

Alex Ferguson a chyn feddyg y Waunfawr.

Yn ddiweddar treuliodd Dr Raymond Williams, cyn-feddyg yn y Waunfawr, rai misoedd yn Ysbytai Gobowen ac eryri. Da deall ei fod yn awr gartref, ac yn gwella.

Ers nifer o flynyddoedd mae Dr Williams yn ddeiliad Tocyn Tymor tim peldroed Manchester United, ac yn ymwelydd cyson ac Old Trafford. O gofio ei edmygedd o reolwr y tim enwog hwnnw, anfonodd ei gyfaill, Rol Williams lythyr at Syr Alex Ferguson i ofyn tybed a fyddai modd anfon gair neu ddau i Dr Williams yn Ysbyty Gobowen, gan y credai y byddai hynny yn codi calon y claf.

O fewn ychydig ddyddiau derbyniodd Dr Williams lythyr gan Syr Alex ar ran y tim yn dymuno adferiad buan iddo. Yn ogystal, anfonodd ateb i Rol Williams hefyd i ddweud iddo gyflawni'r weithred yn unol a'i gais.

Wrth reswm, mae'r ddau lythyr erbyn hyn wedi eu fframio, ac yn ddogfennau 'hanesyddol' o bwys yn sgil ymddeoliad diweddar Syr Alex o'r byd pel-droed.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Ebrill oedd: £30: Ms Alma Jones, Tan y Fron; £20: Mrs Mererid Llwyd, Cae Rhos; £10: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr Taith Pedwar Pegwn, Dydd Sadwrn, Mai 25

Mae'r cyfeillion yn trefnu taith nodedig i gerdded pedwar pegwn, sef Carnedd Dafydd,

Carnedd Llywelyn, Carnedd Ugain a'r Wyddfa.

Pwrpas y daith yw casglu arian tuag at brynu 4 i-pad i bob dosbarth. Mae i-pads yn cael eu defnyddio i godi safonau rhifedd a llythrennedd plant o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6. Rydym yn chwilio am noddwyr, busnesau ac unigolion, a cherddwyr (dros 18 oed). Os oes gennych diddordeb mewn cerdded neu

noddi, cysylltwch â'r ysgol ar 650451.

Noson Rhostio Mochyn, 21 Mehefin, Antur Waunfawr

Yn dilyn llwyddiant y noson llynedd bydd noson arall ar 21 Mehefin am 6.00 o'r gloch yn yr Antur. Mae croeso cynnes i bawb. Bydd tocynnau ar gael gan aelodau Pwyllgor a drwy'r ysgol yn nes i'r amser.

Llongyfarchiadau i Kelly Handy, Pine Cottage, disgybl Blwyddyn 8 yn Ysgol Brynrefail, ar fod yn llwyddiannus iawn mewn cystadleuaeth Fathemateg Genedlaethol wedi ei threfnu gan Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol. Bydd Kelly yn derbyn ei gwobr yn y Babel Wyddoniaeth ar faes Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro.

Hefyd dymunwn yn dda i'r rhai fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, yn unigol ac mewn partion canu a llefaru. Mwynhewch y profiad.

Dathlu Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Cadi a John Gwynedd, Nant, a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd a fu'n dathlu cyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i dri o bobl ifanc ar gyrraedd eu deunaw oed. Yn ystod mis Mai bu Adam Otten, Crud yr Awel, 4 Stad Pant Waun; Elin Lloyd, Tŷ Awelog a Gareth Wyn, Bryn Meredydd (gynt) yn dathlu. Dymunwn bob hapusrwydd ichi i'r dyfodol.

Dymuniadau Da Llongyfarchion i Catrin Heledd, Stad Tŷ Hen, ar ennill ysgoloriaeth i astudio y gyfraith yn y Brifysgol Aberystwyth. Dymuniadau gorau iti gan Nain a Taid.

Catrin, derbyn longyfarchiadau a dymuniadau gorau dy

gyfoedion a thrigolion y Waun hefyd.

Babis Bach Newydd Llongyfarchiadau i Luned a Don, Sŵn y Gwynt, ar ddod yn nain a thaid i wŷr bach newydd, Tomos Harri, mab i Kevin ac Amanda a brawd i Ruby a Jack. Bydd taith i Lanelli i ymweld â'r teulu bach.

Llongyfarchiadau hefyd i Iona a Geraint, Cae Adda, ar enedigaeth merch fach, Eila. Wyres i mi a chyfnither fach i Elin a Mared.

Croeso mawr a phob dymuniad da i'r ddau fach.

Adref o'r Ysbyty Croesawn Ffion Ellis, Bryn Gwyrfa; Bethan Beech, Bryn Arfon a Richard Charge, Llifon, adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan ichi gan obeithio y byddwch yn cryfhau a gwella bob dydd. Fe fyddai'n braf cael tywydd cynnes, yn byddai!

Diolch Yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, mae Rhian, Ty'n Llidiart, yn diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd tuag ati.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu ac â ffrindiau y diweddar Roy Jones, yn eu profedigaeth a'u hiraeth o'i golli.

Cydymdeimlo Anfonwn bob cydymdeimlad at deulu a ffrindiau Llinos Dinwiddy yn eu tristwch a'u galar o'i cholli. Bu farw Llinos yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

Dymuna Cliff a Vera, ffrindiau i Llinos, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau agos, ei chydweithwyr, ei chydolffwyr a'i ffrindiau yn Tangent am bob caredigrwydd a dderbyniodd Llinos yn ystod ei gwaeledd, ac hefyd am eu presenoldeb yng ngwasanaeth ei hangladd.

Diolch am y gofal a gafodd yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdani tuag at Gronfa Ambiwylans Awyr Gogledd Cymru.

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
GALWADAU I'R CARTREF
 Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384
 30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD

Gwasanaeth Gwres a Plymio
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
 Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
 Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Ymweliad â'r Llyfrgell Cafodd plant bach y Cylch Meithrin gyfle i fynd am dro ar fore braf i Lyfrgell y Pentref i fwynhau edrych ar bob math o wahanol lyfrau, ac ymaelodi i fod yn perthyn i'r Llyfrgell. Braf oedd cael cyfle i fynd allan o'r Cylch o amgylch y pentref ac i wneud hyn yn bosib gyda help y rhieni a staff y cylch.

Gaf i ddiolch i bob un ohonoch am yr help. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn ac yn diolch i Carys, sy'n gweithio yn y Llyfrgell, am y croeso cynnes a gawsom ni ganddi.

Cylch Meithrin A yw eich plentyn yn ddwy a hanner rhwng mis Medi 2013 ac Awst 2014? A yw eich plentyn am fynychu'r Cylch Meithrin? Dewch i gofrestru rhwng 9.00 – 11.00 y bore Llun i Gwener (tymor ysgol yn unig). Manylion pellach ar gael gan yr Arweinydd, Dilwen Williams. Ffôn: 07969635944.

Eglwys Crist Llandinorwig Cafwyd noson bleserus iawn yn y Gymdeithas ym mis Mai, pan gawsom ein diddanu gan barti o glochydion, oedd yn galw eu hunain yn 'Clychau'r Enfys' - rhai o Ynys Môn ac eraill o Arfon.

Ar ôl mynd drwy'r Gwasanaeth dechreuol, croesawyd hwy i'r Eglwys gan y Llywydd, Mr Brian Price, a hyfryd iawn oedd gwrandao ar y gerddoriaeth swynol oeddynt wedi ei baratoi ar ein cyfer a thincial y clychau yn atseinio drwy'r Eglwys. Mae yn dipyn o dasg gallu perfformio fel hyn ac yn golygu llawer iawn o ymarfer. Hefyd darllenodd aelod o'r parti farddoniaeth o Gerddi Cynan ac o'r Flodeugerdd Gymraeg ac ychydig o rai eraill yn Saesneg. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am noson mor ragorol a gwahanol gan Mrs Rosina Worth. Anfonwyd ein cofion

cynhesaf at aelodau oedd yn methu â bod yn bresennol ac hefyd at Leon Sinclair Hughes, sydd wedi cael llawdriniaeth i'w goesau, ac at Meilyr Tomos sydd adref yng Nghaerdydd, wedi torri ei goes. Cafwyd hefyd baned, oedd wedi ei pharatoi gan Mrs Kathleen Davies a Mrs Edith Thomas, a diweddyd y noson drwy gydadrodd y Gras.

Diolch Dymuna Iorwerth Evans, 5 Hafod Olau, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ddatlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed ddiwedd mis Mawrth. Diolch hefyd i aelodau capel Cefn y Waun am eu cofion cynnes.

Dymuna Brenda a'r teulu, 6 Rhydfadog, ddiolch o galon i gymdogion, ffrindiau a theulu am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd



Tîm pêl-droed dan 11 Deiniolen

Bu tîm dan 11 Deiniolen yn chwarae yng Nghynghrair Gwyrfaï yn ystod tymor 2012/13. Cafwyd gemau o safon uchel iawn ar adegau, ond yn bwysicach, cafwyd lot fawr iawn o hwyl!!

Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr i'r holl rieni, teulu a ffrindiau a fu'n cefnogi'r hogiau yn ystod y tymor ac yn arbennig i gwmni ALI Design Ltd a gyflwynodd cit llawn i'r tîm ar ddechrau'r tymor. Yn bwysicach, hoffem ddiolch yn fawr i bob un aelod o'r tîm a roddodd eu gorau yn ystod y flwyddyn. Diolch yn fawr hogia!

tuag atynt ar achlysur colli mam a nain annwyl ym Methesda ar 30 Mawrth. Roedd eich geiriau caredig, cardiau a galwadau ffôn o gysur mawr. Diolch yn fawr iawn.

Mae y rhoddion hael a dderbyniwyd yn mynd at achos haeddiannol, sef Ambiwlans Awyr gogledd Cymru. Diolch i bawb.

Profedigaeth Bu farw Javed Haq yng nghwmni ei deulu yn y Llythyr, Clwt y Bont, fore dydd Mawrth, Ebrill 9fed, yn 68 mlwydd oed.

Fe'i ganwyd yn Eldoret, Kenya, ac ymfudodd i Brydain yn 17 oed. Bu iddo briodi gyda Shaheen ar 11 Ebrill 1980 ac yna symud i fyw i Clwt y Bont yn 1986, ble'r oedd yn teimlo'n gryf mai dyna lle'r oedd ei gartref. Bu yn rhedeg y Swyddfa Bost a'r siop gyda'i wraig am saith mlynedd ar

hugain. Roedd wedi mwynhau ei hun ac wedi gwneud llawer o ffrindiau yn lleol, ac mi fu'n gymorth mawr iawn i sawl cwsmer a ffrind yn yr ardal. Yr oedd yn dad gofalus i Imran ac Iram ac yn ymfalchio yn llwyddiant y ddau, sydd yn awr yn feddygon yng Nghaergrawnt a Lerpwl.

Cynhaliwyd ei angladd yn Ghamkol Sharif Mosque, Birmingham, ac fe'i rhoddwyd i orffwys yn Walsall Burial Park dydd Sadwrn, 13 Ebrill.

Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb o'r ardal am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniwyd er cof am Javed, sydd yn mynd tuag at gronfa Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn. Diolch hefyd i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis, am y trefniadau parchus, trylwyr a hollol broffesiynol.

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd  **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

grid76 dylunio graffeg
darlunio
animeiddio
graffeg arddangos

Enw chi yma  **Enw Cwmni chi yma**  **Enw chi yma**  **Enw Cwmni chi yma** 

- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch

Mae'r Wyl i'w chynnal eto eleni, dyma raglen yr wythnos:
Nos Wener, Mehefin 14

Noson yng nghwmni Dafydd Iwan, Clwb Cymdeithasol Llanberis, bws i adael y pentref am 7.30

Dydd Sadwrn, Mehefin 15

Cystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr, Cae Bwthyn, dechrau am 11.00.

Nos Sul, Mehefin 16

Cyngerdd Coroni'r Frenhines, Eglwys Llandinorwig am 6.30.

Cwis yn y Wellington am 9.00

Nos Lun, Mehefin 17

Disgo plant, Ysgol Feithrin am 6.00. Cystadleuaeth pŵl, Wellington am 7.00

Nos Fawrth, Mehefin 18:

Helfa Drysor ar droed, Cwt y Band am 6.00

Pnawn Mercher, Mehefin 19

Te prynhawn yng nghwmni gwestai arbennig, Tŷ Elidir am 1.00

Nos Fercher, Mehefin 19

Ras 10k i gychwyn o Rhydfadog am 7.15

Nos Iau, Mehefin 20

Mabolgampau, Cae Bwthyn am 6.00

Nos Wener, Mehefin 21

Cystadleuaeth Snwcer, Clwb Snwcer am 6.00. Cystadleuaeth Dartiau, Bull am 7.00

Dydd Sadwrn, Mehefin 22

Gorymdaith i gychwyn o Rhydfadog am 1.00 i Cae Bwthyn, ble cynhelir nifer o weithgareddau a chystadlaethau, nifer o gemau a gweithgareddau a stondinau di-ri.

I gloi'r wythnos, ceir noson yng nghwmni Y Bandana yn y Wellington.

Hysbysir yma y bydd lluniau yn cael eu tynnu yn ystod holl weithgareddau'r ŵyl. Os na ddymunir i'ch plentyn gael tynnu eu llun, ag o bosib eu cyhoeddi ar safle Facebook yr Ŵyl, rhaid rhoi gwybod i unrhyw aelod o'r pwyllgor o flaen llaw.

Cyfle i ennill tocyn teulu i'r Eisteddfod ... trwy ymuno â'ch llyfrgell leol

Ymunwch â'ch llyfrgell leol rhwng 28 Mai a 21 Mehefin i gael cyfle i ennill tocyn teulu i Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2013, sy'n cael ei chynnal yn Sir Ddinbych.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn rhan ganolog o galendr gwyliau Cymru gyda chymysgedd o gerddoriaeth, llenyddiaeth, diwylliant, dawn, theatr a llawer mwy.

Yn ogystal â'r agweddau traddodiadol, mae yna weithgareddau mymchol hefyd, cystadlu brwd a llu o wahanol stondinau sy'n arddangos y pethau gorau sydd gan Gymru i'w cynnig.

Dywedodd Bethan Hughes o Wasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych: 'Mae hwn yn gyfle gwych i deuluoedd ddod draw i faes yr Eisteddfod a dysgu mwy am ddiwylliant Cymru, galw heibio stondinau diddorol, blasu bwyd bendigedig o Gymru a chael diwrnod gwerth chweil.'

Mae llyfrgelloedd Cymru yn lleoedd ffantastig i ddysgu mwy am eich diwylliant lleol a chenedlaethol gydag adnoddau print ac ar lein ar gael yn Gymraeg a Saesneg a fformatau eraill, gan gynnwys print bras, tapiau sain ac e-lyfrau.

Os na fuoch chi draw i'ch llyfrgell leol yn ddiweddar, galwch draw neu edrychwch ar lein ar y llu o weithgareddau a gwybodaeth sydd ar gael am ddim.

Bydd y tocyn teulu yn ddilys ar gyfer dydd Gwener, 9 Awst 2013.

I gael gwybod mwy a darllen y telerau ac amodau ewch i www.llyfrgellcymru.org

I gael gwybod mwy cysylltwch â: jane.purdie@wrexham.gov.uk 01978 298861

Mae gan y pentref ohebydd newyddion unwaith eto. Mae dwy wedi gwirfoddoli i dderbyn a danfon newyddion Penisarwaun. Gyda diolch i Katy Williams ac Anna-Marie Jones am fod mor barod i helpu. Katy fydd yn casglu a derbyn newyddion, ac Anna-Marie yn teipio a'u hanfon ymlaen i'r "Eco". Gellir anfon newyddion hefyd ar e-bost i ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Pwyllgor Eisteddfod Bentref Cynhaliwyd Noson Bingo ar nos Iau, 16 Mai, yn y Neuadd Gymuned. Braf oedd gweld cymaint wedi dod i gefnogi a chymdeithasu. Diolchir i Jean, y Galwr profiadol, ac am ofalu am y raffl hefo Liz. Diolch i Caryl a Phyllis am weini yn y gegin. Cafwyd cyfle i ddosbarthu Testunau'r Eisteddfod a chyhoeddi fod yr ymarferion yn cychwyn bob nos Lun, o Fai 20fed ymlaen – rhwng 6 a 6.45 yh i'r oedran Cynradd a 6.45-7.15 i'r Uwchradd tan yr Eisteddfod, nos Wener, Gorffennaf Sed.

Ysgol Sul Bosra, Cymanfa Methodistiaid Arfon Cynhelir y Gymanfa bnawn Sul, Mehefin 23 am 2.00 yn Neuadd Gymuned Penisarwaun dan arweiniad Mererid Mair. Cymerir y rhan dechreuol gan aelodau Ysgol Sul Ebeneser Caernarfon. Dilynr gyda the bach a chyfle i gael sgwrs a chymdeithasu. Croeso cynnes i bawb yn cynnwys plant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Gellir parcio ceir ar fuarth yr ysgol. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth.

Diolch Dymuna Eurgain Haf, Swyddog Cyhoeddusrwydd y Cyfryngau ar ran yr elusen Achub y Plant, ddiolch yn ddiffuant i ffrindiau, aelodau ysgol Sul Bosra, aelodau Parti Clychau'r Grug ac aelodau Clwb Cinio'r Caban am eu parodrwydd i'w noddi i dreulio pum niwrnod yn byw ar £1 y dydd er budd Achub y Plant.

Gwobr anrhydeddus i Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis

Mae ymwelwyr Amgueddfa Lechi Cymru wedi pleidleisio drosti fel un o atyniadau twristiaeth gorau y DU. Cyflwynwyd y wobwr gan y cwmni trefnu teithiau o Iwerddon, CIE Tours International, sydd yn cydnabod safon gwestai ac atyniadau gyda'u Gwobr Rhagoriaeth gyntaf yn y DU mewn seremoni wobrwyo yng Nglasgow yn ddiweddar. Cyflwynwyd gwobrau rhagoriaeth i 25 atyniad o bob cwr o'r DU. Caiff gwobr rhagoriaeth ei chyflwyno i bob cyfrannwr sy'n derbyn marc boddhad cwsmeriaid, ar sail adborth ymwelwyr, o 90% neu fwy. Er bod CIE Tours wedi cynnal gwobr ragoriaeth flynyddol yn Iwerddon ers 23 o flynyddoedd, dyma eu digwyddiad cyntaf yn y DU, ac mae'n adlewyrchu twf y cwmni y tu allan i Iwerddon. Yn y DU mae'r cwmni yn gweithio gyda 185 o gyflenwyr – 55 gwesty a 130 atyniad ymwelwyr. Meddai Mr Brian Stack, Rheolwr Gyfarwyddwr CIE Tours International:

'Er 1932, mae CIE Tours wedi dod â mwy na thri miliwn o ymwelwyr i Iwerddon. Dros y blynyddoedd diwethaf rydynni wedi bod yn ymestyn ein busnes ar draws y DU gan gynnig lleoliadau deniadol i'n cwsmeriaid, nifer ohonynt o Ogledd America. Mae gan ein cwsmeriaid safonau uchel iawn a disgwyliadau mawr o'u hymweliad ac mae'r gwobrau yma'n cydnabod y cyflenwyr sy'n ateb y disgwyliadau hynny, gyda nifer yn rhagori arnynt.'

Ar ennill y wobwr, meddai Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Dr Dafydd Roberts:

'Rydyn ni wrth ein bodd o ennill y wobwr hon, yn enwedig gan iddi ddod yn uniongyrchol gan ein hymwelwyr. Mae'r wobwr yn adlewyrchu ymroddiad ein staff i ddarparu profiad o safon ac rydyn ni ar ben ein digon bod grwpiau CIE wedi mwynhau eu hamser gyda ni. Edrychwn ymlaen i barhau â'r berthynas â nhw yn y dyfodol.'

Damwain Drwg gennym ddeall fod Miss Valmai Davies, 10 Bro Elidir wedi cael damwain. Bu iddi dorri ei migwrn mewn tri lle wrth syrthio o gwmpas ei chartref. Cafodd ddamwain gasiawn a bu yn Ysbyty Gwynedd am ddigon agos i bythefnos lle y cafodd fwy nag un llawdriniaeth. Braf yw cael dweud ei bod gartref erbyn hyn, ond mewn tipyn o boen. Gobeithio y byddi yn gwella o ddydd i ddydd, ac y cawn dy weld allan yn reit fuan. Anfonwn ein cofion fel ardal atat ti, Valmai, a brysia wella.

Arholiadau Anodd yw credu fod tymor yr arholiadau hefo ni unwaith eto, gan ei bod yn teimlo fel gaeaf o hyd. Mae'r flwyddyn ddiwethaf yma wedi mynd fel y gwynt. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb sydd yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd, ac y byddwch yn gallu mynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych wedi edrych ymlaen i wneud. Pob lwc ichi i gyd.

Gwaeledd Nid yw Mrs Alice Griffiths, Tan y Bwlch, wedi bod yn rhy dda ers tro bellach. Gobeithio y bydd yn cael iachâd ac y bydd yn gallu dweud ei bod yn teimlo dipyn bach gwell. Brysiwch wella. Hefyd i fyny ac i lawr y mae Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt. Gobeithio am ddyddiau gwell iddi hithau. Yr ydym fel ardal yn anfon ein cofion gorau atoch eich dwy.

Cymorth Cristnogol Mawr ddiolch i'r rhai a gyfrannodd mor hael tuag at yr elusen yma eto eleni. Er y dirwasgiad mae pawb yn barod iawn i gyfrannu

at yr achos. Diolch yn fawr iawn am y cyfraniadau. Maent yn mynd at achos da.

Profedigaeth Drwg oedd gennym ddeall am farwolaeth Mrs Kathleen Williams ar ôl gwaeledd blin a hir. Yr oedd Kathleen yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs William Jones, Ivy Cottage, gynt. Yr oedd yn un o wyth o blant ac fe fu iddi briodi â David Oliver Williams o Frynrefail. Yr oeddynt yn cartrefu yn ardal Llundain. Rai blynyddoedd yn ôl bu iddynt gael profedigaeth fawr pryd y bu iddynt golli un o'r plant, sef Bryn. Er ei bod yn byw yn Llundain yr oedd ganddynt dŷ haf yng Ngharmel a thra y byddent yno ar eu gwyliau byddai Kathleen yn dod i'r capel yma ar nos Sul lle y bu iddi gael ei dwyn i fyny ac ni fyddai pall ar y siarad. Yr oedd yn loes calon i Kathleen pan gaewyd capel MC Dinorwig. Yr oedd yn meddwl y byd o'r capel.

Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyr ag Oliver, ei gŵr, a'r plant a'i brodyr a'i chwiorydd. Yr unig un o'r plant sydd yn byw yn awr ym mro'r Eco yw Eunice ym Methel. Cofion llwyr atoch fel teulu yn eich galar a'ch hiraeth a gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau du yma.

Yn ystod y mis bu i Mr Harry Edge, Ysgubor, golli ei fam, hithau yn ei nawdegau ac wedi cartrefu ers tro hefo'r mab a'r teulu yma yn Ninorwig. Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyr â Harry a'r teulu oll yn eu profedigaeth.



Pum Cenhedlaeth Llongyfarchiadau i Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, ar ddod yn hen hen nain i Mathew, hefyd ar ddatlu ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed ar 14 Mai. Yn y llun gwelir Mrs Williams, gyda'i mab Gwyn, Keith, Guto a Mathew.

Llongyfarchiadau i Nigel Williams, Aran, ar ddod yn daid i Cai Wyn, mab bach i Stephanie ac Antony ym Mlaenau Ffestiniog.

Arholiadau Pob dymuniad da i blant y pentref sydd yn sefyll arholiadau y tymor yma yn yr ysgol neu yn y coleg.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mr Hywel Williams, Nant Forgan, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna teulu y ddiweddar Margaret Olwen Jones, 21 Dôl Afon, ddiolch o waelod calon i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'r gefnogaeth a gafwyd yn ystod eu profedigaeth drist o golli mam, nain, hen nain a chwaer annwyl.

Diolch hefyd am y nifer o gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau i'r tŷ. Diolch o galon i'r nyrsys a Meddygfa Waunfawr am eu gofal dros y blynyddoedd ac i Dr Esyllt

am ei gofal trylwyr yn ystod y dyddiau olaf.

Diolch yn fawr i'r Canon Idris Thomas am y gwasanaeth teimladwy yn y tŷ a'r fynwent a hefyd i Dylan Griffiths am y trefniadau.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Feed my Lambs Caernarfon, bnawn Mawrth, 21 Mai. Croesawodd Auriel Howells bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth i ddechrau dan arweiniad Iola Jones. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Ebrill a thrafodwyd rhai materion. Atgoffwyd pawb am y Sêl Enfys ym Mangor ar 28 Mehefin. Cafwyd amser i brynu oddi ar y stondin. Cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Iola ac Iris, rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Jenny Salisbury Jones. Diolchwyd i'r gwesteion gan Auriel a therfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

7

Tynfa Misol y Pentref Dyma enwau yr enillwyr am fis Mai: Nia Jones, 10 Rhes Glangwna (66) £40; J. Morris, 7 Bryn Gof (11) £25; M. Hemsworth, The Barn (7) £15; Arwel Evans, 8 Rhes Glangwna (21) £5. Gwasanaethau y Capel

Mehefin 2il am 2 o'r gloch: y Parch Marcus Robinson, ac am 3 o'r gloch bydd cyfarfod o swyddogion y capel.

Mehefin 16eg am 10 y bore: Dr Tudor Ellis, Y Groeslon.

Adref o'r Ysbyty Da gweld fod Mr Hugh Jones, 22 Rhes Glan Gwna wedi dychwelyd o'r ysbyty. Wedi cyfnodau o amser yn ysbytai Gwynedd ac Eryri mae'n teimlo'n llawer gwell ac yn falch o gael dod adref at ei deulu a'i ffrindiau.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Craig a Kerry, 14 Rhes Glangwna ar enedigaeth eu mab bychan, William. Brawd bach i Coral.

Clwb Merched Roedd yna gryn ddifyrrwch yn ein cyfarfod mis Ebrill, pan wnaeth sawl un o'r aelodau adrodd storiâu diddorol i'n diddanu. Cawsom amrywiaeth eang o bynciau - sef o arddangosfa o waith llaw hyfryd a chain a hanesion am y gwagedd fu'n creu'r brodwaith yn lleol; i gyflwyniad am hen declyn anhygoel a ddefnyddid ar un cyfnod gan bobol busnes i bwysu sofrenni aur. Hanesion difyr am gyfnod dysgu a chofnodion o lyfrau log, hen offer a lluniau, gan ddangos inni fel y daeth tro enfawr ar fyd dros y blynyddoedd, ym maes addysg. Cawsom hanesion a gweld lluniau ynghlwm â ffrog fedydd deuluol hardd a'r stori tu cefn i freichled fendigedig sydd â chysylltiad a phwrpas iddi i glymu aelodau'r teulu ynghyd. Difyr yw hel achau a darganfod llawer am aelodau o'ch teulu a'u ffordd o fyw ers talwm a. thrwy luniau a storiâu diddorol amdanynt, deuai'r cymeriadau yn fyw i ninnau hefyd. Cawsom hanes am athrylith o Wyddonydd a ddyfeisiodd y weiarles, y meicroffon a'r teleprinter pan oedd Marconi yn dal mewn trywsus pen-glin, ond yn anffodus ni wnaeth o gyflwyno ei bapur, yn hytrach teithiodd y byd i arddangos ei ddulliau a hyfforddi, a buan y gwnaeth eraill enw iddynt eu hunain ar draul ei waith arloesol.

Wrth grynhoi'r noson ddifyr, sylweddolwyd fod cysylltiadau lleol yn clymu'r holl storiâu a'r hanesion. Diolchodd Marian, y Llywydd, i bawb a gymerodd ran am greu noson o frethyn cartref bendigedig. Cawsom baned a sgwrs cyn gwahanu, trwy garedigrwydd Beryl a Nan.

Tad a Mab! Llongyfarchiadau i Ifan Rhys Williams, Pant Hyfryd, Ceunant ar ei benodiad i weithio efo Eco'r Wyddfa yn ddiweddar. Hefyd llongyfarchiadau i'w dad, Emyr Williams, ar ei benodiad i swydd Prifathro yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Pob dymuniad da i chi eich dau yn eich swyddi newydd.

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260

**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Profedigaeth Dydd Sul, Mai Sed, bu farw Malan Williams, Dinorwig House, yng Nghartref Nyrsio, Penisarwaun yn 97 mlwydd oed. Bu'r angladd yng Nghapel y Rhos, Llanrug ar Fai 10fed gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu. Mae ein cydymdeimlad dwysaf, yn arbennig â Geraint Morris ac a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, Nos Iau, Mai 9fed.

Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd y noson, Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Roedd y myfyrdod fel arweiniad i'r noson yn seiliedig ar thema 'Goleuni'. Estynnwyd croeso cynnes i Eifion Roberts, Llanberis, fel siaradwr gwadd y noson. Cafwyd cyflwyniad diddorol ganddo cyn arddangos cyfres o ffotograffau o eiddo Geoff Charles. Yn dilyn cafwyd cyfle i werthfawrogi enghreifftiau eraill o ddarluniau gyda blas lleol iddynt. Diolchwyd yn gynnes iawn i Eifion am noson gartrefol, llawn atgofion. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mehefin 13eg yng nghwmni Geraint Hughes Roberts, Penrhosgarnedd. Y Cadeirydd fydd Dafydd Ellis, Gwledfa.

Cydymdeimlad - Nos Sul, Mai Sed cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Malan Williams, Dinorwig House, wedi deall am ei hymadawiad yn gynharach yn y dydd. Bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys ym Mrynrefail am gyfnod maith. Bu'n arbennig o gefnogol i bob agwedd ar waith y chwiorydd yn yr eglwys ac ar un cyfnod yn lletya'r pregethwyr o Sul i Sul ac yn gofalu am yr Adeiladau gyda'i diweddar briod, Arfon Williams.

Cofion - Yn yr oedfa nos Sul, Mai 12fed, anfonwyd cofion cynnes a'r dymuniadau gorau i Verna Jones, Meillionen, oedd ar y pryd yn Ysbyty Gwynedd. Rydym oll yn falch erbyn hyn ei bod gartref ac yn gwellu.

Oedfaon Mehefin am 5.30 yr hwyr

- 9: Mr Robert M. Morris, Penygroes
16: Parch Trefor Jones, Caernarfon
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
23: Parch John Owen, Bethesda
30: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

Gwasanaethau Capel Tanycoed

- Mehefin 2: 11.00 a.m. - Y Parchg Edmund Owen
Mehefin 9: 11.00 a.m. - Y Parchg John Pritchard
Mehefin 16: 11.00 a.m. - Y Parchg Roger Thomas
Mehefin 23: 11.00 a.m. - Mr John West
Mehefin 30: 11.00 a.m. - Y Parchg John Pritchard

ARVONIA COACH TOURISM cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

CYDBABYDDIAETH AM OES O WASANAETH I ŴR Y LLYS.

Prif sioe brid y Ceffylau Gwedd yw yr un a gynhelir yng nghanol mis Mawrth yn flynyddolargae Sioe Dwyrain Lloegr yn Peterborough. Yno eleni, ar Ŵyl Sant Padrig (17 Mawrth) anrhydeddwyd gŵr o fro yr Eco â chlod am oes o wasanaeth yn wir trigain mlynedd i fyd y Ceffylau Gwedd sef William Hugh Griffith, Llys, Brynrefail. Gwobr Sir Peter Crossman ddaeth i'w ran a chan na fedrai William Hugh Griffith fod yn bresennol fe'i derbyniwyd ar ei ran yn Sioe Peterborough gan ei fab Dylan Griffith a'i ŵyr Rhys o Tros y Waen Penisarwaen. Roedd y ddau yn cystadlu yn y sioe.

Cyflwynwyd y rhodd gan Mr. Richard Fuller, sef Llywydd Cymdeithas y Ceffylau Gwedd a hynny ym mhrif gylch y Sioe.

Am flynyddoedd maith yr oedd safle y sioe fawr yn Peterborough fel ail gartref i William Hugh Griffith gan y teithiau o'i gartref yn Llys yno'n aml fel aelod o'r prif bwyllgor a phwyllgorau eraill ac hefyd fel cystadleuydd a beirniad. Golygai hynny gyfanswm o bum can milltir, ac yn aml iawn oherwydd prysurdeb yn Llys gorfodwyd ef i wneud y daith mewn diwrnod a chychwyn am bump y bore i fod yno mewn iawn bryd. Fel aelod o bwyllgor canolog Cymdeithas y Ceffylau Gwedd, teithiai hefyd hyd a lled gwledydd Prydain a

chyfarfod cymaint o fridwyr y Ceffyl Gwedd yn sgil hyn. Yn ogystal â derbyn yr anrhydedd diweddaraf hwn, enillodd William Hugh Griffith yn 1989 yr hyn a alwdd yr anrhydedd fwyaf sef Gwobr Goffa Syr Bryner Jones a hynny yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd y flwyddyn honno. Am ei gyfraniad i ddatblygiad a gwelliant y ceffyl gwedd y rhoddwyd yr anrhydedd iddo. Erys un frawddeg ym meirniadaeth beirniaid Gwobr Goffa Syr Bryner Jones a hoffodd yn fawr sef "gŵr cystadleuol iawn yw W.H. Griffith ac i fod yn gystadleuol mae'n rhaid gwella o hyd".

Un o hoff feirdd William Hugh Griffith yw Eifion Wyn ac yn ei gerdd "Os wyt Gymro" ceir "Gwisg genhinen yn dy gap". Wel gwisgo tei a wna William Huw Griffith bron yn ddieithriad ac fel y genhinen gyda balchder y gwna hyn oherwydd ar y tei ceir y llythrennau F.R. Ag. S. sef Cymrodoriaeth y pedair sioe Frenhinol yng Nghymru, Yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn 2011 ymddangosodd ei hunangofiant o Wasg y Bwthyn sef "O'r Castell i'r Llys" lle ceir darlun llawn a difyr am un a lwyddodd mor arbennig ym myd y ceffylau gwedd ac a drodd ei fferm gydag egni anhygoel yn fusnes llewyrchus.


Prynwch y llyfr i gael hanes bridwr, cystadleuydd a beirniad nid oedd ei debyg ac am un a ddefnyddiodd ei ddawn a'i weledigaeth drwy fentro mewn cychyn nad oedd hynny'n ffasiynol.

Daeth ei frid Trem y Wyddfa i sylw pell ac agos ac roedd cyrraedd y brig yn Wembley yn 1984 hefo un o'i geffylau gorau sef Jim's Chance yn foment gofiadwy iddo ef a'i deulu.

Canmolir i'r entrychion am ryw reswm, amryw yn y Gymru selebaidd wag a di-dalent hon heddiw, ond dyma ŵr o fro yr Eco yma yn Arfon a roddodd fenter a gweledigaeth ar waith oherwydd ei dalent gynhenid yn y meysydd y sonnir amdanynt.

Diolch i Gymdeithas y Ceffyl Gwedd am werthfawrogi oes o wasanaeth hynod ganmoladwy a safonol.

Gyda'i briod annwyl Elspeth mwynhau ymddeoliad gyda'i gilydd wnant ond wrth i William Hugh Griffith



godi ei olygon yn ystafell ei dy gwêl geffylau gwedd (be arall!) yn pori'n hamddenol yn y cae ac os aiff allan, rhedant ato gan ei gyfarch yn groesawgar. Wrth i William Huw Griffith roi dipyn o fwythau iddynt mae englyn

Isfoel i'r ceffylau gwedd rwyn siwr yn adleisio ei deimladau yn llwyr-

"Er dyfeisio'r tractorau-a nerthoedd

Y gwyrthiol beiriannau; Ni rannodd Iôr yn ddi-au-at haf gwlyb

Bwer cyffelyb i bâr ceffylau."

Idris Thomas.

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cist Gymunedol

**Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhian.dobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk



GWASANAETH GARDDIO OWEN

**GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO**

**FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO**

07901648008

YSGOL BETHEL

Blwyddyn 5 a 6 yn y Castell yng Nghaernarfon.



Ymweliadau â'r goedwig Cafodd plant yr adran iau gyfle i fynd ar deithiau maes i ddwy goedwig wahanol yn ystod mis Mai. Bu Blwyddyn 3 a 4 yng Nghoed Meurig ym Methesda a bu blynyddoedd 5 a 6 yng Nghoed Doctor yn Llanberis. Trefnwyd yr ymweliadau gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Bu rhai plant yn creu Celf yn y goedwig yn defnyddio deunyddiau naturiol ar ôl astudio gwaith yr artist Andy Goldsworth, a rhai eraill yn adeiladu cynefinoedd gwahanol i greaduriaid bach ac adnabod coed gwahanol yn defnyddio allweddau gwahanol. Ymweliadau gwych!

Myfyrwyr o'r Coleg Pleser oedd cael cwmni Miss Ffion Llwyd yn yr ysgol tymor diwethaf. Bu'n treulio ei phrofiad dysgu efo dosbarth Elidir ac fe gafodd brofiad dysgu hynod o lwyddiannus. Mae dyfodol disgrair o'i blaen fel athrawes, rwy'n siŵr. Croesawn Mr Owen Hughes atom y tymor hwn; myfyriwr TAR yn treulio ei gyfnod profiad dysgu efo dosbarth Gwyrfai. Pob hwyl iddo am weddill y tymor.

Gwasanaeth Tân Daeth Mrs Gwawr Williams o'r Gwasanaeth Tân i'r ysgol yn ddiweddar i roi sgwrs i'r plant am waith y gwasanaeth tân. Dysgodd y plant pa mor bwysig ydyw cael larwm mwg yn y tŷ.

PC Neil Williams Daeth PC Neil Williams i'r ysgol wythnos diwethaf i siarad efo'r disgyblion am fwlio seiber a bwllo ar y we. Roedd ganddo negeseuon pwysig iawn i'w trosglwyddo i'r plant.

Rhyd Ddu Cafodd blwyddyn 6 dridiau bendigedig yn aros yn y Ganolfan Awyr Agored yn Rhyd Ddu dan ofal Mr Dylan Parry a Miss Allana Evans. Braf oedd cael cwmni Mrs Morfudd Thomas a Mr Cemlyn Jones am y tri diwrnod i'n tywys ar nifer o deithiau cerdded. Cerddodd y plant o Feddgelert i Ddinas Emrys ar eu diwrnod cyntaf a chael eu diddanu ar y copa gan yr hen chwedl. Taith gerdded o Rhyd Ddu trwy'r goedwig i Feddgelert oedd o'n blaen ar yr ail ddiwrnod a chael mwynhau trip ar y trên bach yn ôl i'r Ganolfan! Roedd profiad bythgofiadwy yn disgwyl y plant (a'r staff!) ar y bore olaf! Cerddodd pawb ar hyd llwybr yr Wyddfa o Rhyd Ddu a dod o hyd i lecyn perffaith ar y mynydd i sglefrio i lawr yr eira! Roedd pawb wedi cael modd i fyw! Cerddodd y plant 21km dros y tridiau ac roedd pob un ohonynt yn awyddus iawn i ychwanegu'r pellter hyn at eu cyfanswm "Dal i Fynd"! Pleser oedd bod yng nghwmni pob un o'r plant. Pob un ohonynt yn werth y byd!

Mabolgampau Bydd y mabolgampau yn cael ei gynnal cyn diwedd y tymor, ond mae'r paratodau wedi cychwyn yn barod! Mae capteiniaid y tri thîm wedi eu dewis o blith plant blwyddyn 6. Cafodd yr Adran Iau gyfle i bleidleisio am eu capteiniaid! Llongyfarchiadau i Gwenllian Griffiths ac Owain Jones (capteiniaid Cadnant), Amara Roberts a Huw Gwynn (capteiniaid Garth) ac Angharad Jones ac Ywain Emrys Jones (capteiniaid Iolen). Daw mwy o wybodaeth am y mabolgampau cyn diwedd y tymor!



Capteiniaid Cadnant



Capteiniaid Garth



Capteiniaid Iolen

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
5.30am-7.30pm
(Llun-Sadwrn)
5.30am-3pm(Sul)



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

YSGOL BETHEL



Ffion Jones yn cael ei gwobrwyo gan Paula Owen a Mr Fox.

Taith yr Adran Iau i Gastell Caernarfon a Chastell Dolbadarn Er gwaethaf y tywydd garw, cafodd yr Adran Iau hanner diwrnod diddorol iawn yn ymweld â chestyll Caernarfon a Dolbadarn fel rhan o'u hastudiaethau hanes am Oes y Tywysogion. Cafodd y plant eu tywys oddi amgylch Castell Caernarfon a dysgu nifer o ffeithiau hynod o ddiddorol. Bu raid torri'r ymweliad â Chastell Llywelyn Fawr yn fyr oherwydd y tywydd!



Llongyfarchiadau i Shauna Williams am ennill cystadleuaeth Diwrnod y Llyfr drwy gynllunio nodlyfr. Daeth yn fuddugol allan o nifer fawr iawn o blant. Llongyfarchiadau hefyd i Ffion Jones am guro cystadleuaeth a gafodd ei gosod gan yr Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd. Bu raid cynllunio poster i ddathlu 60 mlynedd o groeswyr ffordd tu allan i ysgolion. Poster Ffion ddaeth yn fuddugol drwy holl ysgolion Gwynedd. Cafodd Ffion ei gwobrwyo gan aelodau o Cyngor Gwynedd.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

▼

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:
Age Concern Gwynedd a Mon Ty Seiont, Ffordd Santes Helen Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)
Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i **www.ageuk.org.uk/products**



AGE Concern



Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig. Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig. Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK a dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

▼

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

11



Grwp Dawnsio Disgo Angylion Kelly fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenfro.

Bu Elan Jones a Lowri Jones yn cystadlu'n unigol. Llongyfarchiadau i bawb sy'n ymwneud â llwyddiant y dawnsiwr (mae mwy o luniau dan newyddion Llanrug).



Angylion Kelly



MERCHED Y WAWR

Daeth yr aelodau at ei gilydd o dan lywyddiaeth Glenys Griffiths ac yn dilyn y croeso arferol, braf oedd cael llongyfarch y canlynol, sef Alys a Robin Jones ar ddathlu Priodas Rhuddem yn ddiweddar, i Aled Hefin, mab Jen Roberts ar ei ddyweddiad â Casi, a Margaret Eckley ar ddod yn Famgu i Rhydian Lewis, mab bach Debbie a Dafydd. Diolchwyd i bawb o'r Gangen am gyfrannu tuag at apêl y bagiau, mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel gan fod dros 5,000 wedi cyrraedd Aberystwyth erbyn hyn.

Dymunwyd pob llwyddiant i holl blant Bethel sydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis. Nodwyd digwyddiadau Rhanbarthol sydd yn cael eu cynnal ym mis Mehefin, sef Ffair Haf (Pwyllgor Anabl) Mehefin 7fed o 10.00 ymlaen yng Nghanolfan Ebeneser Caernarfon, Noson Celf a Chrefft yn y Ganolfan,

Tregarth ar nos Wener Mehefin 21ain. am 7.30, a thaith gerdded o Gaernarfon i'r Felinheli ddydd Sadwrn Mehefin 22ain.

Pleser o'r mwyaf oedd cael cyflwyno gwestai'r noson sef Cadi Iolen. Bu'n sgwrsio'n ddifyr iawn am ei gwaith fel Curadur yr Amgueddfa sy'n golygu cyfrifoldeb am arolygu'r holl gasgliadau sydd yn yr Amgueddfa. Dangosodd luniau oedd yn berthnasol i'r sgwrs, fel yr olwyn ddŵr fwyaf yn y byd, a'r rhes tai y chwarelwyr. Eglurodd hefyd pa mor bwysig ydyw i gofnodi yr holl offer sydd ar gael yno.

Roedd ei brwdfrydedd am ei gwaith yn amlwg a thalwyd gair o ddiolch iddi gan Eirlys Williams. Diolch hefyd i ferched y baned sef Rita Williams, Gwyneth Williams a Mary Evans. Enillydd y raffl oedd Gwyneth Jones (Pentir). Cysylltwch â Nora Parry os am ddod i'r cyfarfod olaf ar Fehefin 12.

Clwb Bro Bethel Dylan Parry oedd yn cadw cwmni i'r aelodau yng nghyfarfod mis Mai ac yn dilyn croeso gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo, gyda chymorth lluniau, yn sôn am y cyfnod pan aeth allan i dderbyn hyfforddiant o dan y cynllun Hyfforddiant mewn Cenhadaeth (Training in Mission). Mae'r cynllun yma yn rhoi cyfle i bobl ifanc o wahanol wledydd i fynd allan i wledydd pell i ddysgu sut i genhadu. Tra yn Affrica, Dylan oedd yr unig un o Ewrop ar y cwrs a phob un o'r grŵp yn siarad iaith eu hunain. Fe gafodd brofiadau yn dysgu Saesneg a Mathemateg i blant ddifreintiedig, helpu pobl mewn angen a chynnal dosbarth Ysgol Sul gan gyflwyno neges Gristnogol i'r plant, nid unwaith yr wythnos, ond bob dydd. Bu wedyn yn yr India am gyfnod a chael cyfle i fynd i ysbytai a gweithio gyda grwpiau a'u helpu i ddod yn gyfarwydd â'r byd modern o'u cwmipas. Diolchwyd iddo am rannu ei brofiadau a chodi ymwybyddiaeth o wahanol sefyllfaoedd sydd yn bodoli mewn rhai mannau o'r byd gan Jenkin Griffiths.

Diolch i Maud Williams a Margaret Williams am baratoi'r baned, a llongyfarchiadau i ddau aelod, sef Marjorie Roberts sydd wedi dathlu pen blwydd arbennig, a Bob Jones yn dathlu cyn bo hir. Y trip pen-tymor fydd nesaf a hynny ar Fehefin 4ydd. Bydd y bws yn cychwyn o Penrhos am 10.45 ac yn codi yn y mannau arferol.

Plygu'r "Eco". Gair i atgoffa pawb mai tro trigolin Bethel yw hi i blygu rhifyn Gorffennaf. Dewch draw ar brynhawn Iau, 27ain o Fehefin i Festri Cysegr. Gyda diolch ymlaen llaw am wirfoddoli.

YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH GARDDIO OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Y GOGONIAN T WEDI CILIO

Bydd rhaid i fwy nag un ohonom feddwl am le newydd i fynd iddo ar y trip Ysgol Sul eleni gan fod Parc Camelot, un o gyrchfannau poblogaidd y blynyddoedd diwethaf, wedi cau. Roeddwn wedi deall hynny dros y gaeaf. Ond ryw fis yn ôl, a minnau o fewn hanner milltir i'r lle, penderfynais alw heibio i weld dros fy hun. Roedd yr arwydd mawr a groesawai'r ymwelwyr wrth y fynedfa wedi diflannu, a cherrig mawr wedi eu gosod ar draws y lôn i'r maes parcio. Giatiau cyfarwydd y castell ffug wedi eu cau; a dim byd o'm cwmipas ond llonyddwch llethol yn lle lleisiau llawen llond bws o blant. Aeth holl ramant a hwyl y lle i ganlyn yr arwydd coll. Roedd yn drist gweld y lle, yn union fel mae'n drist gweld siopau a ffatrioedd a chant a mil o lefydd eraill yn segur a gwag ac yn amddifad o fri a graen y gorffennol.

Mae gweld capeli ac eglwysi'n cau ganwaith gwaeth i'r Cristion, wrth gwrs, gan ei fod yn arwydd o ryw beth llawer mwy na diflaniad diwylliant a ffordd o fyw ac o hamddena. Mae'n arwydd o'r gogoniant ysbrydol a ddiplannodd i raddau helaeth o'n gwlad. Ac eto, mor bwysig yw cofio nad yr adeiladau hyn oedd y gogoniant hwnnw ond Efengyl Iesu Grist a phresenoldeb Duw gyda'i bobl wrth iddynt ddod ynghyd i addoli o'u mewn. A chofio hynny sy'n rhoi gobaith i ni er gwaethaf pob siom a thristwch. Oherwydd nid yw gwaith Duw yn dibynnu ar ein hadnoddau ni. Nid yw'n dibynnu ar ein gallu a'n doniau ni nac ar lewyrch ein hadeiladau nac ar faint ein cyfoeth materol o fewn yr eglwysi. Mae'n dibynnu'n hytrach ar Dduw ei hun, a gall ein Duw droi'r tristwch a'r tlodi sy'n eiddo i ni heddiw yn llawenydd ac yn

llawnder yfory.

O bosibl y gwelwn ni Barc Camelot yn ail agor ryw bryd, er bod hynny'n ymddangos yn annhebygol o gofio iddo gau unwaith o'r blaen. Byddai angen buddsoddiad go fawr, mae'n debyg, i'w ail agor. Mor dda yw cofio y gall Duw o'i drugaredd mawr adfer y gogoniant i'w Enw ei hun yn ein plith heb ein buddsoddiad ni o gwbl. Gall ddewis tosturio wrthym yng Nghymru a throi ein pobl ato'i hun o'r newydd. Mae wedi gwneud hynny fwy nag unwaith yng ngorffennol ein cenedl. Ond tybed nad yw er hynny yn galw arnom i fuddsoddi amser ac egni i weddio ac i alw arno i fendithio a llwyddo ei waith ei hun? Gweddiwn am gael gweld enw Crist mewn bri o'r newydd yn ein plith.

JOHN PRITCHARD

Cadeirydd newydd Côr Meibion Caernarfon

Cadeirydd newydd Côr Meibion Caernarfon yw Bryn Griffith, o Plas Felin Gerrig, Llanllyfni – Bryn Plas, fel y mae pawb yn ei adnabod. Bu'n aelod o'r côr ers dros ugain mlynedd.

Meddai Bryn, 'Ers imi ymddeol o'm gwaith fel Rheolwr Datblygu gyda Chymdeithas Tai Eryri mae gen i fwy o amser i ganolbwyntio ar fy niddordebau eraill - ffarmio, canu a bod yn daid i ddau o blant.' Ychwanegodd, 'Yn adran y baritons, rhoddodd y côr gyfle imi ddysgu caneuon o bob math a theithio'n eang ym Mhrydain a thu hwnt. Ond, yn llawn mor bwysig, mae'n lle ardderchog i wneud ffrindiau da - cefais groeso twymgalon o'r diwrnod cyntaf.

'Mae gan y côr flwyddyn ddiddorol o'n blaen ac rydym yn awyddus i ddenu aelodau newydd, gan gynnwys aelodau o ardal Eco'r Wyddfa. Eisoes mae nifer dda o'n haelodau dod o'r ardal hon. Rydym yn ymarfer yn Galeri, Caernarfon, bob nos Fawrth gan ddechrau am 7.45pm. Ewch i'n gwefan www.cormeibioncaernarfon.org am fanylion pellach.

'Mae'n anrhydedd fawr cael fy ethol yn Gadeirydd côr mor lwyddiannus. Dymunaf ddiolch i'm rhagflaenydd, Dafydd Jones, am lenwi'r swydd gydag urddas a hiwmor dros y ddwy flynedd diwethaf.'

Cyfeillion Gwirfoddol
Ffrindia'
yng Ngwynedd
- Rhwng eich ffydd mewn ffrind -

Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwyd chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae **Ffrindia'** angen
Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi
Unigolion dros 50 oed sydd angen
cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch
gyda:
NIA HAF JONES
01286 685929
nia@mantellgwynedd.com

Yn ymgyddio gyda'r Cymdeithas Ffrindiau a'r Cymdeithas Ffrindiau Cymru

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn
unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te
angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu
gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

GLANHAWR
SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwy
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

Mawl Adar Mai

Daw'r afr yn ôl i'r awyr
a hi'n fin nos
gan droelli fel mewn gwewyr
rhwng gwig a rhos.

Daw gwennol ddu i'r toeau
o'r gofod glas,
gan sgrechian ar fin nosau
aruthrol ras.

Daw côg yn ôl a'i deunod
i Goed y Glyn,
yr iâr fawr frech mor ddinod;
nyth arall fyynn!

Daw chwiban prudd cylfinir
"fel bugail cudd"
o ffec a chawn y rhostir
drwy'r nos a'r dydd...

Daw pibydd 'nôl i'r glennydd
a'i ddart a'i chwib...
a'r hebog dros y gelltydd
ar gwrs o'r griib.

Daw tingoch a'r clep cerrig
i'r waliau sych,
hen eirfa fendigedig
sylwadaeth wych!

Daw'r hithau Sipsi Geltaidd
a'i choesau tân
i bigo'r tywairch hafaidd
am forgrug mân.

Yn ôl mae'r côr teloriaid
i glust a glyw
drwy'r dail yn ceisio piwïaid
i gadw'n fyw.

Rhan ynt o'r byd naturiol
a'r cread crwn....
ond rhônt rhyw wedd ys-
brydol
i mi, - mi wn!

Mae'r oll o'r enwau lleol/plw-
yfol ar yr adar hyn i'w cael yn
Llyfr Adar Iolo Williams –
Cymru ac Ewrop... edrych-
wch!

Norman Closs

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



Y Gymdeithas Wyddonol

Genedlaethol

A fedrwch chi gyfrif nifer yr holl ysgolion uwchradd yng Nghymru? Nesaf, faint o ddosbarthiadau sydd, yn cynnwys disgyblion blwyddyn 8? Ac yn olaf sawl disgybl blwyddyn 8 sydd yn y dosbarthiadau hynny? Mae'r niferoedd yn eu miloedd.

Rhaid felly eich bod yn fathemategwr arbennig iawn i ddod ar y brig mewn cystadleuaeth fathemategol genedlaethol.

Llongyfarchiadau calonnog i Kelly Handy, Waunfawr, sydd wedi cyrraedd safon uchel iawn yng Nghystadleuaeth Fathemateg Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol.

Bydd Kelly yn derbyn ei gwobr yn y Babel Wyddoniaeth yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro.



Ysgoloriaethau Prifysgol

Aberystwyth

Llongyfarchiadau calonnog i Catrin Heledd Owen a Gareth Jones ar ennill ysgoloriaethau gan Brifysgol Aberystwyth.

Enwebwyd Catrin gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mi fydd yn derbyn £3,000 dros ei chyfnod fel myfyrwraig yn astudio'r Gyfraith. Yn ychwanegol y mae Catrin wedi ennill Ysgoloriaeth Mynediad ac mi fydd yn derbyn £1,000 yn ystod ei blwyddyn gyntaf.

Enillodd Gareth Ysgoloriaeth Fynediad o £1,000 a fydd yn gymorth iddo yn ystod ei flwyddyn gyntaf wrth astudio Gwyddoniaeth.

Y mae teulu Brynrefail yn falch iawn o lwyddiant y ddau ac yn dymuno pob lwc iddynt gyda'u hastudiaethau pellach



Llongyfarchiadau, Katie, am gyrraedd zoo!

Na, na, na tydym ni ddim yn sôn am ei hoedran ond yn hytrach ei llwyddiant! Y mae pob myfyriwr yn y Chweched Dosbarth yn gorfod cyflawni 30 awr o waith gwirfoddol o dan gynllun Bagloriaeth Cymru.

Penderfynodd Katie wirfoddoli yn Ysbyty Gwynedd gyda'r W.R.V.S. a mwynhaodd ei hunan gymaint fe arhosodd ymlaen ac, erbyn hyn, wedi ennill tystysgrif i ddathlu 200 awr o waith gwirfoddol.

Mae Katie yn gobeithio astudio ymhellach mewn Prifysgol ac wedi graddio yn gobeithio cael gwaith mewn ysbyty.



ENILLWYR CWPAN ERYRI dan 15 YSGOL BRYNREFAIL 22 DYFFRYN CONWY 19

A glywsoch chi erioed am y gêm o ddau hanner? Wel dyma i chi'r gêm!

Yn chwarae yn erbyn Ysgol Dyffryn Conwy yr oedd tîm Brynrefail yn colli o 19-5 pan aeth chwiban y reffari ar gyfer yr egwyl.

Ond yn yr ail hanner ni ildwyd yr un pwynt a, gyda 15 munud ar ôl, yr oedd y sgôr yn parhau i fod yn 19-5. Yn

raddol fe ddaeth hogia Brynrefs yn ôl i fod yn 4 pwynt ar ei hôl hi ac yn chwarae'r pum munud olaf. Yna cafwyd cic syfrdanol ar draws y cae gan Guto Pierce ac er bod Peter Mansoor o leiaf 25medr y tu cefn i asgellwr Dyffryn Conwy, gwibiodd heibio iddo, dal y bêl gyda un llaw a croesi'r llinell o dan y pyst



Pri-fysgol Fetropolitan Caerdydd

Llongyfarchiadau calonnog i Llio Emyr ar ennill ysgoloriaethau gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd. Enwebwyd Llio gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mi fydd yn derbyn £3,000 dros ei chyfnod fel myfyrwraig yn astudio Chwaraeon ac Addysg Gorfforol. Y mae teulu Brynrefail yn falch iawn o'i llwyddiant ac yn dymuno pob lwc iddi gyda'i hastudiaethau pellach

C'mon Reff

Faint ohonoch chi sy di sefyll ar gae Eithin Duon neu'n gwyllo'r Darans, a'ch wyneb yn goch wrth i chi chwydu bytheiriau tuag at y llumanwr neu'r reffari?

Ond lle fydden ni hebddynt?

Yn ddiweddar bu Elliot Duggan-Edwards, blwyddyn 12, yn rhedeg y lein yn y gêm rhwng Llanrug a Nefyn ac mi gafodd lwyddiant aruthrol wrth wneud.

Wedi deufis o hyfforddiant yn 2012 fe gafodd ei dderbyn yn gyflawn reffari o fis Medi 2012 ac mae'n cofio gwefr ei gêm gyntaf fel llumanwr yn y Bermo. Bob bore Sadwrn mae yn y canol yn rheoli gemau plant iau, yn llumanwr yn y pawns, ac wedi iddo basio prawf ffitrwydd yn ddiweddar mi fydd yn rheoli yn yng Nghynghrair yr Alliance o Fedi 2013.



Ei Gap

Cynfaf

Iolo Hughes, Bethel, gyda'i Gap Cymru am fod yn aelod o garfan Ysgolion Cymru dan 18 yn y nhwrrnamaint y 'Centenary Shield' gan chwarae yn erbyn Lloegr, Yr Alban, Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Fe chwaraeodd Iolo hefyd mewn gemau cyfeillgar dros ei wlad.



Llongyfarchiadau James

Da oedd gweld hogyn o'r ardal yn y garfan ar gyfer gêm derfynol Tlws Cynghrair Pêl-droed Cymru ar gae Latham Park, Y Drenewydd. Chwaraeodd James Bell ei ran ym muddugoliaeth CPD Caernarfon yn erbyn tîm Kilvey o Abertawe gyda sgôr terfynol o 6-0.

Malcolm a thymor cymêrs Llanbêr

Am flwyddyn mae'r cyn bêl-droediwr proffesiynol, a sylwebydd Sgorio, Malcolm Allen wedi dychwelyd i'w wreiddiau i helpu hyfforddi tîm pêl-droed Llanberis. A bu camerâu S4C yn ei ddilyn er mwyn adrodd y stori yn y gyfres newydd Clwb Pêl-droed Malcolm Allen, sy'n dechrau nos Iau.

“Mae trideg mlynedd wedi pasio ers i mi adael CPD Llanberis. Mae'r pentra' wedi newid ond dydy'r bobol ddim,” meddai Malcolm, a fagwyd ym mhentref Deiniolen ger Llanberis, lle dechreuodd o chwarae pêl-droed yn hogyn bach. Os oeddech chi'n chwarae'n dda i Ddeiniolen, yna'r cam nesa' oedd chwarae dros Lanberis, a dyna wnaeth Malcolm yn 15 mlwydd oed. “Roedd rhai pobl pentra' Deiniolen yn tynnu fy nghoes i yn deud mod i'n fradwr am fynd i chwarae i Lanberis. Ond be ro'n i'n g'neud oedd chwara' i dîm Dan 16 Deiniols yn y bora, wedyn chwarae i Llanbêr yn p'nawn!”

Yn ardal chwareli gogledd Cymru, mae CPD Llanberis yn hawlio parch fel y tîm mawr lleol. Sefydlwyd y clwb ym 1890 gan weithwyr y gwaith llechi, ac mae ganddi hanes hir o lwyddiant, cwpanau a theitlau. Roedd mis Mehefin 2012 yn ddechrau pennod newydd yn yr hanes, wrth iddyn nhw ennill dyrchafiad i Adran Gynta' Cynghrair Undebol y Gogledd ac agor eu hystafelloedd newid newydd sbon.

A dyma ble mae taith tymor Malcolm yn dechrau, wrth i dîm o Eidalwyr ddod i Lanberis ar gyfer gêm gyfeillgar i ddathlu agor yr adeilad newydd. Yno yn annerch y dorffoedd Llywydd y Clwb, sef Arwel 'Hogia'r Wyddfa' a'r Aelod Cynulliad lleol Alun Ffred Jones, oedd wedi cynhyrchu y gyfres gomedi C'Mon Midffild.

Ac mae atsain Mr Picton, Wali a'r criw i'w glywed yn glir yn Clwb Pêl-droed Malcolm Allen gan mai pobl Llanbêr sy'n dwyn y sioe. Ymhlith y sêr o gymêrs mai'r brodyr Terry a Colin Saynor,

hyfforddwyr y tîm. Mae eu cysylltiad nhw â'r clwb yn ymestyn yn ôl sawl cenhedlaeth, ac yn ddi-ffael ym mhob gêm mae eu mam, Pat Saynor, yn gweiddi ei chefnogaeth o ochr y cae, efo'i ffrind Anti Nellie (89 oed!) wrth ei hochr.

Wrth gwrs, mae'r tîm ei hun yn lawn dop o gymeriadau a llysenwau lliwgar. Gethin 'Wexs' Wakeham ydy'r capten a David 'Didi' Agüero' Jones y seren o streicar. Gwyn 'Hank' Ianto sy'n berchen ar deitl chwaraewr lleia' ffit y tîm, ac mi wneith yfed unrhyw beth o'r tu ôl i'r bar. Harry Styles Llanbêr ydy'r ymosodwr ifanc ac mae 'Tybs' (Llion ydy ei enw iawn) yn troi ei law at dipyn o bob dim fel physio a 'Doctor Dŵr', er dydy o ddim wedi cael fawr o hyfforddiant chwaith.

Does 'na'r un o'r hogia' yn cael tâl am chwarae dros Lanbêr, dim ond £5 ar gyfer costau teithio, ac wrth i Malcolm ymuno â nhw roedd CPD Llanberis yn wynebu'r her o chwarae mewn cynghrair uwch ac yn erbyn timau sy'n gallu fforddio talu'n hael am chwaraewyr.

“Doeddau nhw ddim isho bod yn dîm oedd yna i wneud y rhifau fyny, ac roedden ni isho cael dylanwad ar y gynghrair. Roedd rhaid i ni gredu ein bod ni'n ddigon da i ddal ein tir yn erbyn y timau mwy. Fedrwn ni ddim cystadlu efo pres – ond mi fedrwn ni gystadlu efo gwaith caled,” meddai Malcolm.

A fydd yr hogia'n llwyddo i godi'r safon ar gyfer cystadlu yn y gynghrair uwch? A sut byddant yn ymdopi yn erbyn mawrion fel Treffynnon, Dinbych a Chaernarfon? Does ganddyn nhw ddim byd i'w golli.

Mae'r gyfres – Clwb Pel-droed Malcolm Allen - yn cychwyn ar Nos Iau, 6ed o Fehefin am hanner awr wedi naw y nos ar S4C. (Mae lluniau am y sesiwn hyfforddi ar y dudalen gefn.)



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

- Blwyddyn o yswiriant
- Blwyddyn o wasanaeth arferol
- Blwyddyn o dreth y car
- Blwyddyn o wasanaeth achub
- Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrrwyr dros 21 oed!



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**



MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffoedd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigurau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO2 87 – 135

Ynni solar i Gyngor Gwynedd

Mae nifer fawr o ysgolion, swyddfeydd a chyfleusterau hamdden ar draws Gwynedd yn awr yn cynhyrchu eu trydan eu hunain, fel rhan o waith Cyngor Gwynedd i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae paneli solar wedi'u gosod ar amryw o adeiladau'r Cyngor ar draws Gwynedd, yn cynnwys Canolfan Hamdden Plas Silyn ym Mhenygroes a Chanolfan Tennis Arfon yng Nghaernarfon, fel rhan o fuddsoddiad yr awdurdod lleol mewn 15 o brosiectau ynni adnewyddadwy.

Fel rhan o'r cynllun, mae wyth o ysgolion cynradd Gwynedd yn awr yn cynhyrchu eu hynni trydanol solar eu hunain, gan gynnwys Ysgol Cae Top, Bangor, Ysgol yr Hendre, Caernarfon; Ysgol Ffridd y Llyn, Y Bala; Ysgol Crud y Werin, Aberdaron; Ysgol Pentreuchaf; Ysgol Llanrug ac Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog.

Yn ogystal, mae saith o ysgolion uwchradd y sir hefyd yn elwa o baneli solar newydd, a gafodd eu gosod gan Solaria Energy UK Ltd.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer yr Amgylchedd:

'Gall gwneud newidiadau bach ond pwysig wneud gwahaniaeth mawr i leihau faint o garbon rydym yn ei gynhyrchu. Yma yng Ngwynedd, mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o gyrff cyhoeddus i wneud beth y gallwn i arbed ynni a gofalu am yr amgylchedd ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

'Fel rhan o'r datblygiad diweddaraf hwn, fe wnaethom dreialu'r prosiect yn wreiddiol yn Ysgol Crud y Werin y llynedd. Bu'n llwyddiant ysgubol wrth i'r paneli gynhyrchu mwy o drydan nag a ragwelwyd.

'O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno'r prosiect mewn 15 o safleoedd eraill y Cyngor y gaeaf hwn, yn ogystal â'r agweddau ynni adnewyddadwy sydd wedi'u cynnwys yn y prosiectau ysgolion newydd, megis ysgol ardal Ysgol Craig y Deryn yn ardal Dysynni.

'Mae gwerth 138kW o baneli solar wedi'u gosod ac amcangyfrifir y bydd y rhain yn cynhyrchu cyfanswm o 111,765kWh o drydan bob blwyddyn. Byddai hyn yn arbed 58.6 tonnall o allyriadau carbon bob blwyddyn – digon i lenwi 352 o fysiau deulawr. Dylai'r paneli solar dalu amdanynt eu hunain mewn 9.5 mlynedd felly mae'n fuddsoddiad gwych.'

Dywedodd Robin Williams, prifathro Ysgol Llanrug:

'Rydym yn hapus iawn bod ein hysgol wedi bod yn addas i gymryd y paneli solar hyn. Gallwn gael mynediad at y data ar-lein i ddarganfod faint o drydan rydym yn ei gynhyrchu a chysylltu'r wybodaeth hon gyda phatrymau tywydd gan fod gennym orsaf dywydd yma yn yr ysgol hefyd.'

Mae'r ysgolion uwchradd eraill yn cynnwys Ysgol Friars, Bangor; Ysgol Brynrefail, Llanrug; Ysgol Eifionydd, Porthmadog; Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon; Ysgol Botwnnog ac Ysgol Ardudwy, Harlech.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ac mae targedau penodol wedi'u pennu fel rhan o'i gynllun rheoli carbon i leihau allyriadau carbon y Cyngor 30% erbyn 2014/15. Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi lleihau ei allyriadau carbon 17%.

Mae cyfanswm o £7 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau fydd yn torri allyriadau carbon, ac a fydd hefyd yn cyflawni arbedion ariannol dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys uwchraddio goleuadau, cyfarpar optimeiddio foltedd, insiwleiddio ac atal drafft, gosod bwyleri newydd ac uwchraddio offer rheoli gwres. Mae'r rhain i gyd yn fesurau sy'n gwella adeiladau ac effeithlonrwydd adeiladau.

Mae gwelliannau arbed carbon eraill yn cynnwys rhaglenni codi ymwybyddiaeth i geisio newid agweddau at wastraffu ynni ymysg staff ac ysgolion. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn credu y gellir arbed 10% o'r ynni mae adeiladau yn ei ddefnyddio trwy newid ymddygiad pobl.

Ychwanegodd y Cynghorydd Gareth Roberts: "Roedd hi'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â materion ymddygiad a gwella ein hadeiladau cyn i ni ystyried buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Mae ein hymdrechion i leihau ein hallyriadau carbon yn parhau ac rydym ar y trywydd iawn i leihau ein hallyriadau 30% erbyn 2015, a 60% erbyn 2021 fel rhan o bartneriaeth Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd.

'Rydym wedi sylweddoli na allwn ddibynnu ar danwyddau ffosil a ffynonellau ynni anadnewyddadwy yn unig oherwydd bydd y rhain yn darford rhyw ddiwrnod. Dyna pam rydym bob amser yn ceisio meddwl am wahanol opsiynau a pham ein bod yn buddsoddi mewn technoleg o'r fath – ar gyfer y dyfodol.'

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225



TM JONES
SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

BOSCH Service
Car Service
AA MOT
ATC
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW **BOSCH Car Service**





Royal Victoria Hotel **LLANBERIS**
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



CHWILOTA

Hen Adfeilion – achyd-ddigwyddiad.

Bu cryn dipyn o ymateb i'r ddau lun a ddangoswyd yn y ddau rifyn diwethaf o'r "Eco". Gyda diolch i Ceri Foulkes, Deiniolen, Eirwyn Williams, Cwm y Glo, Paula Roberts, Llanberis a Carys Parry, Llanrug am eu sylwadau a gwybodaeth. A doedd gen i ddim syniad wrth gynnwys lluniau o'r ddau adfail, fod cysylltiad teuluol rhyngddynt – ond mwy am hynny yn nes ymlaen.

Sgubor, beudy a mân adeiladau allanol yn perthyn i Gwyndy oedd y llun a ymddangosodd yn rhifyn Ebrill. Olion Gwyndy yw'r rwbel cerrig ar ochr y lôn, ar y chwith wrth ddringo tuag at Groeslon Rhiwen. Mae ffynnon Gwyndy yn dal i lifo o'r cae gerllaw. Mr a Mrs Lewis a'r plant oedd y teulu olaf i fyw yno cyn symud i Bentre Helen, Deiniolen. Cafodd y tŷ ei ddymchwel wedi'r Ail Ryfel Byd er mwyn

gwella tro drwg yn y ffordd, ble bu nifer o ddamweiniau.

Mae'r lluniau yn dangos Braich y Dinas fel ag yr oedd. Bu o leiaf dair cenhedlaeth o deulu Parry yn byw yno. Roedd Foulk John Parry yn briod ag Ellen Jones, Bryn Sinc, Clwt y Bont, ac yn byw yn Braich y Dinas. Roedd yno dri o fechgyn, a bu Thomas Buckley Parry yn byw yno wedyn gyda'i briod, gan fagu Len, Les a Dilys. Symudodd y teulu i dŷ mwy Bryn Madog yn 1954. Fu neb yn byw ym Mraich y Dinas wedyn. Gan Dilys (a'i merch, Paula) y daeth y

wybodaeth am fyw yn Braich y Dinas.

"Tŷ bychan gydag un ystafell fyw, dwy siamr a chrogloff oedd Braich y Dinas, a rhyw ddeg acer o dir; digon i gadw rhyw ddwy neu dair fuwch odro, ychydig loi a ieir. O amgylch y tŷ roedd coed afalau ac eirin, llwyni cyrens duon a gwsberis, a digon o fwyar duon a llus o amgylch y cloddiau ac ar y creigiau yn yr haf. Byddai 'nhad yn torri gwair efo pladur, ei sychu yn yr haul, ei fwndelu a'i raffu. Ni'r plant yn ei gario ar ein cefnau i'r cwt

gwair er mwyn gofalu fod digon o fwyd i'r anifeiliaid yn y gaeaf. Doedd dim trydan na dwr yno: lamp baraffin a chanhwyllau i oleuo, a phopty tân i goginio. Roedd dwy gasgen fawr tu allan i'r drws i ddal dwr glaw i ymolchi a golchi dillad, ond roedd angen cario dwr o ffynnon i yfed a choginio.

Chwarelwr oedd fy 'nhad, ac yn trin y fferm ar ôl dod adre o'r gwaith. Mam oedd yn gofalu am

y tŷ a gwaith y fferm yn ystod y dydd. Bywyd caled iawn iddynt, ond lle delfrydol i ni'r plant: allan drwy'r dydd, helpu ar y fferm, crwydro, trochi, pysgota a nofio yn afon Seiont. Cerdded gyda ffrindiau i Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun a mynd i Eglwys Santes Helen bob Sul. Cerdded i siop Waun Penisarwaun ddwywaith yr wythnos i brynu neges – taith o tua milltir a hanner.

Talcen y cwt gwair a'r beudy sydd yn y llun a ddangoswyd yn rhifyn Mai."


A beth tybed yw'r cysylltiad rhwng Gwyndy a Braich y Dinas?

Dair cenhedlaeth yn ôl daeth geneth ifanc dair ar ddeg oed o ardal Pentraeth i weini ar fferm y Gwyndy. Mae Carys, wyres y forwyn bach honno, bellach yn briod â Les, yr olaf i'w eni ym Mraich y Dinas.

Adfail y mis hwn. Tybed a ddaw cymaint o wybodaeth o ardal y Waunfawr? Mae'r olion hyn i'w gweld yn uchel ar yr allt serth sy'n dringo tu hwnt i Ben Das Eithin ac i gyfeiriad Chwarel Cefn Du. Oedd enw ar y bwthyn, a phwy fu'n byw yno?



Adfail Waunfawr



Mwy o hen luniau.

Anfonwyd y llun o ddosbarth Ysgol Sul Capel Mawr, Cwm y Glo gan W.Arnon Roberts, Pwllheli. Yr unig wybodaeth ar y llun yw mai Mrs Rose Thomas yw'r athrawes, ac mai yn 1899 y tynnwyd y llun.

Cais sydd yma felly am fwy o wybodaeth – unai am yr athrawes neu am rai o'r plant.



Cais am Wybodaeth: Teulu Currie a Newfoundland.

Rai misoedd yn ôl holais am lun o'r hen Lwyn Celyn, Llanberis. Mae un o ddisgynyddion teulu'r Curries, a fu'n byw yno, yn chwilio am gysylltiadau teuluol. Bu aelod o'r teulu yn aros yn Llanberis yn ddiweddar, a chyfarfu â gwr o'r enw Gareth neu Gary a oedd yn adnabod gwraig o Lanberis gyda lluniau neu gofnodion cerrig beddi o Newfoundland (aeth cangen o deulu'r Curries yno i fyw). Yn anffodus, cyn medru ail-gysylltu, bu'n rhaid i'r ymweliad â Llanberis ddod i ben, ond mae'n dal yn awyddus i glywed gan Gareth/Gary neu'r wraig a chysylltiad â Newfoundland. A fydddech cystal a fy ffonio os gwelwch yn dda, ac fe allaf eich cysylltu.

Trefeddyg Bank.

Glywsoch chi erioed am y cyfeiriad uchod yn Ninorwig? Yn ystod mis Awst 1941 roedd Dr a Mrs H. Edwards yn aros yn nhafarn y Ship, Aberdaron, ac yn rhoi eu cyfeiriad cartref fel Trefeddyg Bank, Dinorwig. Ble roedd y fath le, a phwy oedd y meddyg?

Y mis nesaf cawn hanes cythraul canu yn Neiniolen a llwyddiant ysgol Betws Garmon. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffon 01286 673515.

Ysgol Gynradd



Bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yn y Faenol yn Rasys Trawsgwlad yr Urdd i Ysgolion Cynradd Eryri a Chonwy. Llongyfarchiadau i Caitlin Forrest am ddod yn gyntaf yn y ras i ferched blwyddyn 3. Yn dilyn ei llwyddiant aeth ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynola a chenedlaethol yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau iddi am ddod yn ail yn y ras honno hefyd.

Caitlin Forrest a ddaeth yn gyntaf yn ras trawsgwlad merched blwyddyn 3 ysgolion cynradd Eryri a Chonwy.

Daeth Mrs Judith Roberts, cydlynnydd cynllun ysgolion iach Gwynedd, i'r ysgol i gynnal noson gyda'r rhieni yn trafod 'Addysg Ryw a Pherthnasedd'. Diolch i Mrs Roberts ac i bawb a gefnogodd y noson.

Aeth plant y cyfnod sylfaen i weld sioe Wcw 'Sŵyn Yr Ardd' yn Neuadd Goffa Felinheli. Mwynhaodd y plant y sioe yn fawr iawn.

Rhai o ddisgyblion y cyfnod

sylfaen yn mwynhau gwyllo sioe Wcw 'Sŵyn Yr Ardd'.

Mae'r dosbarth derbyn wedi bod yn brysur yn astudio'r thema 'Y Corff'. Cawsant hwyl pan ddaeth Mr John Tomos ag ŵyn bach i'w dangos i'r dosbarth. Cafodd y plant fwydo'r ŵyn a dysgu sut i edrych ar eu hól. Cawsant ddysgu llawer gan Miss Llinos Morris pan ddaeth i ymweld â'r dosbarth gyda Efa, ei merch fach chwe mis oed. Cawsant ddysgu am waith y nyrs pan ddaeth Mrs Ruth Parry i ymweld â'r dosbarth ac roedd pawb wrth eu bodd pan gawsant ymweld â meddygfa Llanrug. Cawsant groeso mawr gan Dr Esyllt a holl staff y feddygfa wrth iddynt ddysgu llawer am rôl y feddygfa yn y gymuned. Diolch yn fawr iawn i Mr Tomos, Miss Morris, Mrs Parry,

Dr Esyllt a holl staff y feddygfa.

Dros y mis diwethaf cafodd disgyblion blwyddyn 4 brofiad

gwerthfawr o fod yn rhan o gynllun drama 'Gweld O'r Newydd' gan Gwmni'r Frân Wen. Dan arweiniad Leisa Mererid a Mari Gwent buont yn gwneud mygydau larfal ac yna'n defnyddio'r mygydau i greu dramâu di-eiriol.

Cynhaliwyd taith gerdded nodedig gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Roedd y daith yn cychwyn o fuarth yr ysgol ac yn mynd heibio Bryn Bras, ar hyd ffordd Bwlch i Cwm y Glo ac yna yn ôl i Lanrug. Daeth nifer o ddisgyblion, staff a rhieni ar y daith a chawsant fwynhau sgldion a chŵn poeth ar ôl cyrraedd yn ôl i'r ysgol.

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad i Amgueddfa Lechi, Llanberis. Roedd yr ymweliad yn rhan o waith thema y plant ar 'Ein Bro'. Mwynhaodd pawb yr ymweliad yn fawr iawn.

Cafodd plant yr ysgol gyfle i fwynhau 'Gemau Potes' amrywiol ar fuarth yr ysgol.

Roedd yr elw o'r gemau yn mynd tuag at y gost o fynd lawr i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro ym mis Mehefin. Rydym yn dymuno yn dda i bob un o'n disgyblion sydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Pob lwc i Leisa Gwenllian (blwyddyn 6) yng nghystadleuaeth yr unawd Alaw Werin blwyddyn 6 ac iau; Elain Elis (blwyddyn 6) yng nghystadleuaeth Dawnsio Disgo Unigol blwyddyn 6 ac iau; Tomi Llywelyn (blwyddyn 4) yng nghystadleuaeth yr Unawd dan 10 oed ac i Erin Gibbard (blwyddyn 2) yng nghystadleuaeth yr Unawd Cerdd Dant dan 8 oed.

Pob lwc hefyd i holl aelodau y parti Dawnsio Gwerin dan 10 oed yn eu cystadleuaeth hwy. Diolch hefyd i Mrs Heulwen Evans am hyfforddi y parti Dawnsio Gwerin ac i Mrs Eirian Howells am gyfeilio iddynt.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Seiclo'n Saff.

Cafodd plant Blwyddyn 6 o Ysgol Gynradd Llanrug gyfle i ddilyn cwrs 'Seiclo'n Saff' yn ddiweddar. Mae'r cwrs yn cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd i hybu plant i feddwl am sut i fod yn ddiogel tra'n beicio.



Llewod Llanrug dan 10 oed yn arddangos eu tlysau yn dilyn llwyddiant mewn cystadleuaeth ym Methesda.



Genethod tim pel-rwyd Ysgol Gynradd Llanrug fu'n cystadlu mewn twrnameint i ysgolion gogledd Cymru.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups*

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrowyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS


Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Grwp Dawnsio Disgo Angylion Kelly a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenfro. Elaine, Efa, Ella, Anna ac Erin o Ysgol Gynradd Llanrug. Y genethod eraill yw Ellie, Gwenllian, Cara ac Elin. Elaine Angharad Elis fu'n cystadlu ar y Ddawns Disgo Unigol.



Dosbarth Mathemateg Mrs Jones - Blwyddyn 5 a 6



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Mai 14 am 7.30 cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen. Estynnwyd croeso twymgalon i nifer dda iawn o aelodau gan y Llywydd, Mair Huws. Cychwynnwyd y cyfarfod drwy ganu Càn y Mudiad.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Myfanwy a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl a hynod o ffraeth. Llongyfarchwyd Carwyn a Siân ar eu priodas yn Eglwys Llandaf, Caerdydd. Roedd pawb yn falch o weld Cari yn ôl wedi'i thriniaeth yn ddiweddar. Atgoffwyd yr aelodau fod y gangen yn dathlu Pen-blwydd Rhuddem yn 2014 - a bydd angen meddwl am ffurf o ddathlu.

Y mae Bethanne a Menna wedi bod wrthi yn ddiwyd yn llunio Llyfr Lloffion a diolchir iddynt am eu gwaith caled. Awgrymwyd prynu camera newydd i'r gangen a'i roi yng ngofal gofalwry Llyfr Lloffion. Ar fore Gwener, Mehefin 7fed cynhelir Ffair Haf gan Is-bwyllgor yr Anabl 'Er Budd Clic' yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon, rhwng 10-12 o'r gloch. Mynediad yn cynnwys paned o goffi neu de am £1. Bydd amrywiaeth o stondinau ar gael hefyd.

Bydd Sefydliad y Galon Caernarfon a'r Cylch yn cynnal casgliad o dŷ i dŷ rhwng Mehefin 9-22. Cysyllter â Linda (Ffôn 673838). Gwerthfawrogi unrhyw help.

Cynhelir Opera Gala, 'Proms yn y Plas' yn Plas Brondanw, Llanfrothen ar 22 Mehefin am 6.30 yr hwyr. Bydd Robyn Lyn yn perfformio gydag Owen Webb, Ros Evans, Kate Woolveridge ac Annette Bryn Parri. Tocyn - yn cynnwys bwyd: £35. Dewch â phlanced, cadair ac ambarel hefo chi. Mynediad drwy docyn yn unig.

Bydd Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn cynnal noson o arddangosfa blodau ac adloniant ar y thema 'Merched Drwy'r Oesau' ar nos Lun, 15 Gorffennaf am 7.30 yn Theatr Addysg, Ysbyty Gwynedd. Pris £10 yn cynnwys lluniaueth

ysgafn.

Derbyniwyd nifer o lythyrau diolch. Darllenwyd llythyr gan M.L. Barton ar ran ymddiriedolwyr a staff Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn mynegi eu diolch am y rhodd ariannol wedi sgwrs ddifyr Marion Hughes am ei phrofiadau yn yr India y mis diwethaf. Bu trip Lleisiau Llanbabs i'r Wyl Ban Geltaidd yn hynod o lwyddiannus a dymunant ddiolch i'r gangen am eu rhodd. Yr un modd diolchwyd i'r gangen am y rhodd haelionus i Barti Dawnsio Gwerin Ysgol Llanrug a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro. Dymunir pob llwyddiant iddynt ac i bawb o'r Fro fydd yn cystadlu. Diolchir i'r gangen hefyd am eu rhodd garedig gan Bwyllgor Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Dangoswyd cerdyn diolch hyfryd gan blant Ysgol Hafon Lon yn diolch am y poteli sudd oren.

Bu'r dasg o ethol swyddogion ac aelodau o'r pwyllgor yn rhwydd iawn. Gyda Nan yn Llywydd, etholwyd Menna yn Is-lywydd, Mary yn Drysorydd a Megan yn Is-drysorydd. Olwen a Linda fydd yn Ysgrifenyddion gydag aelodau'r Is-bwyllgorau yn aros yr un fath. Darllenwyd cofnodion 2012-13 ac fe'u cafwyd yn gywir. Yna cafwyd cyfle i gael clonc gyda gwydryn o win a lluniaeth ysgafn. Diolchwyd i Mair a Carys am y wledd ac i Mary, Sheila a Cari am ofalu am y te a'r coffi.

Mehefin 11 bydd Gwibdaith i Ganolfan Uwch Gwyrfaï, Clynnog. Bydd Dr Ann E. Williams, (cyn-weithiwr yn Amgueddfa Sain Ffagan ac arbennig-wraig ar hen feddyginiaethau a pherlysiau) yn rhoi sgwrs - unai yn yr ardd neu yn y Ganolfan - hyn yn ddibynnol ar y tywydd. Y gost fydd £2 y pen. Byddwn wedyn yn ciniawa yn Ty'n Llan, Llandwrog. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 5.45 - yna Ffordd yr Orsaf a Sgwâr Llanrug.

Capel y Rhos

Yn dilyn y gwasanaeth fore Sul, Mai 12fed, cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus gan blant ac athrawon yr Ysgol Sul. Gwnaed dros £200 o elw ac mae'r arian yn mynd at gasgliad Cymorth Cristnogol.

Oedfaon Mehefin am 5.30 yr hwyr

Mehefin 2: Parch. Marcus Wyn Robinson y gweinidog
Mehefin 9: Mr. Charles Wyn Jones
Mehefin 16: Y Gweinidog
Mehefin 23: Mr Robert M. Morris
Mehefin 30: Mr Euron Hughes

Cylch Meithrin

Dyma enillwyr y Bêl Bonws:

Ebrill 27 – Enyd Lloyd Jones (rhif 26)
Mai 4 – Anwen Owen (rhif 37)
Mai 11 – Wendy Parry (rhif 3)
Mai 18 – Eryl Roberts (rhif 15)

Bydd y Bel Bonws yn dod i ben am eleni ar nos Sadwrn, Gorffennaf 6ed.

Gobeithir ail ddechrau ym mis Medi. Mae rhai yn dymuno cario ymlaen, ac mae eraill wedi dangos awydd i ymuno o'r newydd. Gan fod rhai eisiau rhoi'r gorau iddi fe fydd nifer o rifau gwag ar gael. Mae un rhif yn costio £1 yr wythnos a'r rhif bonws ar nos Sadwrn sydd yn cyfrif. Mae'n ddull arbennig o hwylus i godi arian a chyfle i bawb ennill. Ers mis Hydref diwethaf casglwyd £1,000 i'r cylch a diolch i bawb sydd wedi bod yn cefnogi.

Mrs. Gwen Edwards (Anti Gwen yn y cylch) fydd yn gyfrifol am y Bêl Bonws y flwyddyn nesaf – felly cysylltwch â hi neu gyda'r trefnydd presennol Mair Hughes, Hafan (238495) i gael eich rhif!

Diolch Dymuna Mari, Gwyn, Llinos a'r teulu ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch am y llu cardiaid a'r rhoddion hael o £600 tuag at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru.

Diolch Dymuna Mrs Mona H. Griffiths, 2 Hafan Elan, ddiolcho galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian, blodau, cardiaid a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 89.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y Band Bydd y Band Ieuenctid yn cystadlu yn y Drenewydd ar ddydd Sul, 9 Mehefin. Bydd y bws yn gadael Llanrug am 9.00 y bore ac yn dychwelyd oddi yno oddeutu 4.00 y pñawn. Mae croeso i unrhyw un fanteisio ar y cyfle i deithio gyda'r band. Y gost fydd £5.

Bwriada'r Band gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni, ar ddydd Sul, 4 Awst. Bydd y bws yn gadael Llanrug am 8.00 y bore ac yn dychwelyd oddeutu 4.30 y pñawn. Eto, bydd croeso i unrhyw un ymuno ar y daith. Y gost fydd £5.

Am fwy o wybodaeth am y

ddau ddigwyddiad, cysyllter â Mike Thomas ar 01286 675084.

Diolchiadau Fe ddymuna Valmai Owen, 2 Rhos Elan, Ffordd Bethel, ddiolch o galon i'w theulu, cydweithwyr a ffrindiau am drefnu swper iddi ar ddathliad ei phen-blwydd yn 70. Diolch yn fawr i bawb am bopeth.

Llongyfarchiadau mawr i Gwilym Rees Parry, Tai Hermon, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Deall ei fod wedi cael amser arbennig gyda'r teulu a ffrindiau.

Profedigaeth Daeth newyddion trist iawn am farwolaeth Marion, 19 Hafan Elan, yn 45 mlwydd oed. Mam hynod i Daniel a'i ddyweddi, Danielle, merch annwyl iawn Stan a Bet Jones, chwaer Brian, Allan a Nicola a modryb hoff ei neiaint a nithoedd. Roedd gan bawb feddwl mawr o Marion ac fe fydd colled fawr iawn i'r teulu, ei ffrindiau, y gofawyr a thrigolion Hafan Elan.

Yr un mor sydyn, bu farw Karen Williams, 3 Glan Moelyn yn 46 mlwydd oed. Gwraig annwyl a ffyddlon i Dilwyn, mam hoffus a nain ofalus i Guto bach.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth.

Malcolm yn Beicio a Nofio Yn ystod mis Ebrill fe wnaeth Malcolm Pitts o Lanrug nofio milltir a hanner bob wythnos am 5 wythnos a beicio gyda'i gyfaill, Darren Brame, o Blas Menai i Gastell Caernarfon, ymlaen i Gastell Criccieth ac yn ôl i Blas Menai. Cyfanswm o 56 milltir. Dyma'r chweched gwaith mewn saith mlynedd i Malcolm wneud hyn er cof am ei annwyl ddiweddar wraig, Yvonne, a gollodd ei bywyd i ganser ar 22 Mehefin 2006, yn 47 mlwydd oed. Yvonne fu'n gofalu am ac yn ysbrydoli Malcolm am flynyddoedd wedi iddo gael damwain ym mis Awst 1982, dim ond 9 mis wedi iddynt briodi, damwain wnaeth newid eu bywydau am byth oherwydd i Malcolm gael anafiadau difrifol i'w ben oedd yn golygu nad oedd yn gallu cerdded na siarad am gyfnod, nes iddo gael ei ddyngu i wneud hynny eto drwy dderbyn

triniaeth a ffisiotherapi. Mae'n dal i ddioddef sgil effeithiau'r ddamwain, yn cynnwys problemau gyda chof tymor byr. Mae Yvonne yn dal yn ysbrydoliaeth iddo. Adran Niwrolegol Ysbyty Walton yn Lerpwl oedd yn gyfrifol am achub ei fywyd yn 1982 a Ward Alaw Ysbyty Gwynedd fu'n gofalu am Yvonne yn ystod ei salwch, ac felly i'r ddau achos da yma mae Malcolm yn codi arian eleni. Hoffai ddiolch o galon i bawb sydd eisoes wedi cymryd ffurflenni ganddo ac i bawb sydd wedi ei noddi. Mi fydd yn cyflwyno sieciau er cof am Yvonne o gwmpas 22 Mehefin i Ward Alaw ac Ysbyty Walton. Os am gyfrannu gallwch gysylltu hefo Malcolm ar 01286 676542 neu ar-lein drwy wefan Just Giving <http://www.justgiving.com/Malcolm-Pitts>

Sefydliad Coffa.

Enillwyr Clwb Cant mis Ebrill oedd:

1. Efa Roberts, Glanfa,
2. Mrs M. Parry, Wenllys,
3. M.Axon, 13 Hafan Elan.

Plaid Cymru.

Enillwyr Clwb Cant mis Mai:

1. Ifanwy Jones, Brynrefail.
2. Valmai Williams, Aberdesach.

Sesiwn Cyfrifiadurol yn yr Ysgol Gynradd.

Ar nos Fawrth olaf mis Mai cynhaliwyd sesiwn blasu gan Digidol Gwynedd. Anfonwyd llythyrau gartref gyda phob plentyn yn gwahodd rhieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddod draw i weld ac i brofi rhai o'r datblygiadau newydd ym maes cyfrifiaduron, y we, i-pad ac yn y blaen.

Roedd yr "Eco" eisoes wedi mynd i'r wasg cyn y cyfarfod, ond i rai a fethodd a bod yn bresennol, ond sydd efo diddordeb mewn dilyn cyrsiau penodol am weddill y tymor hwn, mae croeso i chwi gysylltu gyda'r ysgol. Fel yr adroddir ar dudalen flaen y mis hwn, mae Ysgol Gynradd Llanrug yn ganolfan hyfforddi rhanbarthol Apple; yr unig un o'i bath drwy gyfrwng y Gymraeg. Manteisiwch ar y cyfle hwn: mae degau o gymunedau eraill yn eiddigeddus o'r cyfleusterau sydd ar gael i'r gymdeithas yn Llanrug.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunogio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban Cyf

Alan Wyn Pritchard

Hoffai holl deulu Alan Wyn Pritchard, Tŷ Cambrian, 4 Rhes Cambrian, Llanberis, ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau gorau a'u caredigrwydd yn dilyn ei farwolaeth ddisymwth. Roedd clywed cymaint o feddwl yr oedd gan bobl ohono yn gysur mawr i'r teulu i gyd. Roedd Alan wrth ei fodd fod y meddygon wedi caniatáu iddo fo a Teleri fynd ar y gwylliau olaf hyn hefo'r hogia'. A chwith yw meddwl – a hynod o addas hefyd – mai hon oedd ei ffafr olaf â nhw.

Ken ffrind Alan sydd wedi ysgrifennu'r geiriau hynod addas yma.

Dyma emyn sy'n wir bob gair yn achos Alan. Doedd o ddim eisiau moethusrwydd na phethau drud – yr unig beth oedd yn bwysig iddo oedd bod yn hapus a bod ei deulu yn hapus. Y dyn mwyaf gonest a dewraf a welais i erioed. Mi fydd colled fawr ar ei ôl.

*Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y Byd na'i berlau mân:
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.*

*Fe gafodd Alan ddwy galon hapus, onest a glân.
Calonnau a oedd yn llawn o aur a pherlau mân
Calonnau mwyn cyfoethog a hoffus
Calonnau oedd yn decach na lili'r nos
Dwy galon a oedd bob amser yn canu i'r dydd a'r nos.*

*I gofio am ffrind arbennig iawn,
Ken*

Athrawon Ysgol Dolbadarn.

Gan Eluned Jones, un o'r cyn-ddisgyblion y cafwyd yr enwau ar gyfer y llun a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco'. Diolch am gysylltu.

Rhes gefn: Mr Emlyn Jones, Mrs Ann Owen, Mrs Myfanwy Butler, Mrs Elizabeth B. Jones a Mr Leslie Jones.

Rhes flaen: Miss Marian Davies, Miss Edwards, Mr R.E. Jones (prifathro), Miss Megan Humphries a Miss Enid Roberts.

ANGEN MWY O NEWYDDION LLANBERIS

Gadewch i ni wybod beth sydd yn mynd ymlaen, neu sydd i ddod, yn eich cymdeithas/ pwyllgor neu Gyngor. Gallwch adael/ yrru nodyn yn/i Sŵn Y Gwynt, Ffordd Padarn, neu yrru neges, drwy e-bost, i eifionroberts132@btinternet.com

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y glo, Deiniolen, Penisarwaun a Llanberis

Cynhaliwyd Cymanfa hynod lwyddiannus yn Ffestri Capel Coch bnawn Sul, Mai 13fed.

Dymunir diolch i blant Ysgol Sul Capel Coch am y rhan dechreuol clodwiw; i Andrew Settatee o Gynllun Efe am ei sgwrs ddifyr; i aelodau'r Pwyllgor ac i aelodau'r Capel am y te hyfryd ar y diwedd.

Diolchir yn arbennig i Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug, am arwain y Gymanfa gyda'i chaneuon bywiog ac amrywiol. Bu ymateb y plant a'r oedolion yn hynod o dda a phawb wedi mwynhau orig werthfawr dros ben. Diolchir hefyd i Bennaeth a Gofalwyr Ysgol Dolbadarn am gael defnyddio'r buarth i barcio'r ceir – bu hyn yn hwylus iawn.

Llongyfarchiadau i Tomos Parry M.A., Rhiwerfa, ar gael ei dderbyn i wneud gwaith ymchwil ar gyfer doethuriaeth mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Goettingenyn, yr Almaen. Mae Prifysgol Goettingenyn yn un o glasuron academiaidd Ewrop, ac anrhydedd i Tomos yw cael y fraint o wneud ei waith ymchwil yno.

Yr ydym yn falch tros ben o gampwaith Tomos, gan ddymuno iddo lwyddiant eto yn ei astudiaethau.

Llongyfarchiadau i Mona Jones, 17 Dôl Eilian, ar ddod yn hen-nain, i Eilia Rees, merch fach Iona Emlyn a Geraint Rees Waunfawr. Llongyfarchiadau hefyd i June a Dai o Bethesda ar ddod yn Nain a Thaid ac i Mrs Nan Roberts Waunfawr ar ddod yn Nain.



Y Glaslanciau ym Mhlas Pengwaith.

Plas Pengwaith Dyma ni yn rhoi ychydig o hanes y misoedd diwethaf, a'r digwyddiadau aeth ymlaen yma, yn eich Cartref lleol.

Ar brynhawn Sul, y 7fed o Ebrill, cafwyd Hogiau'r Glaslanciau o Borthmadog yma yn diddanu, ac roedd pawb wedi eu mwynhau. Dros y Pasg bu i bawb wneud 'Bonet' a'i haddurno. Bu'n gystadleuaeth dda, ac anodd iawn oedd i Elwyn (Hogiau'r Wyddfa) eu beirniadu.

Hoffai Pawb yma ym Mhlas Pengwaith ddiolch i Mr Deryl Jones, Fferm Fêl Llanberis, am rodd o £250 i brynu soffâ i'r Lolfa Newydd. Diolch hefyd i Martin Rowlands am y carpedi, a diolch arbennig i Mr Emlyn Baylis am ei waith diflino yma.

Estynnwn groeso mawr i chwi ddod atom am banned, i Plas Pengwaith.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Tony Ellis

Tony Ellis o 5 Nant Ffynnon, Nant Peris, â fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar y Sed o Ebrill yn 74 oed.

Ganwyd Tony yn Snowdon View, Llanberis, ar yr 22ain o Ragfyr 1938, yn un o bedwar o blant i Douglas ac Elizabeth Ellis. Yn 16 oed fe ddechreuodd weithio ar Reilffordd Y Wyddfa gyda'i Dad i barhau traddodiad teuluol gan fod ei Hen Daid yn un o'r gyrwyr trenau cyntaf pan agorwyd y Rheilffordd yn 1896. Fe dreuliwyd 48 o flynyddoedd hapus a difyr yno yng nghwmni ei gyd-weithwyr a thuag at ddiwedd ei yrfa roedd yn Orsaf-feistr, cyn ymddeol yn 2003.

Roedd Tony yn Wŵr, Tad, Taid a Hen Daid arbennig o annwyl ac roedd wrth ei fodd yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau.

Cynhaliwyd gwasanaeth yr angladd ar yr 12eg o Ebrill yn Eglwys St Peris, Nant Peris, a rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent Nant Peris.

Gwasanaethwyd gan y Barch Ddr Carol Roberts, Tra Barch Alun Hawkins, Parch Ganon Philip Hughes a'r Parch Ganon Robert Townsend. Yr Organydd oedd Mr Gareth Jones.

Y prif alarwyr oedd: Margaret (Gwraig), Jennifer a Robin (Merch a Mab yng-nghyfraith), John (Mab), David a Tammi (Mab a Merch yng-nghyfraith), Olwen a Sam (Wyres a'i Phartner), Bethan, Tomos, Ben, Harriet a Jack (Wyrion a Wyresau), Robin Sion (Gor-wŵr), Marlene (Chwaer), Douglas a Michael (Brodyr) a llawer o berthnasau a ffrindiau rhy niferus i'w henwi.

Y Cludwyr oedd John Ellis, David Ellis, Stephen Williams, Peter Williams, Robin Davies a Michael Ellis.

Rhoddwyd blodau er cof gan Margaret; Jen, Robin, Olwen, Beth, Tom, Sam a Robin Sion; John a Jack; David a Tammi; Ben a Harriet; Marlene, Douglas a Michael; Joyce, Sheila a Shaun; Gareth, Llinos a Theulu Bryn Derw; Elwyn, Catherine, Karen a David; Michael, Sian, Lynne, David, Jonathan a Louise; Twm a Hilary; Hugh a Renee; Harri, Rose, Gareth a Sam; Rosemarie, Helena a'r teulu.

Derbyniwyd rhoddion hael tuag at elusennau lleol. Roedd trefniadau'r angladd yn nwylo Mr Gwynfor Jones a Jane o E.W. Pritchard, Llanberis. Cafwyd lluniaeth yn Ty'n Llan, Nant Peris.

Teyrnged

*Yn dawel a diymhongar
A'i wên annwyl gyfeillgar.
Triw ydoedd i'w holl deulu
Gan eu caru oll yn gu.
Hiraethwn am ei golli
Wrth iddo gwrdd â'r Iesu.
Elfyn Williams*

Diolch Dymuna Margaret, Jennifer, John, David a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un oedd mor annwyl iddynt.

Diolch i'r Barchedig Ddr Carol Roberts, Tra Barch Alun Hawkins, Parch Ganon Philip Hughes a'r Parch Ganon Robert Townsend am y gwasanaeth arbennig. Diolch i Gareth Jones, yr organydd, i Mr Gwynfor Jones am y trefniadau trylwyr ac urddasol, ac i Ty'n Llan am y lluniaeth. Diolch yn arbennig i Dr Huw Gwilym, Meddygon a staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal arbennig, ynghyd ac Uned Gofal Calon Ysbyty Gwynedd. Bydd yr arian a gasglwyd er cof yn cael ei ddosbarthu rhwng achosion da lleol.

Owen Kenneth Jones

Profedigaeth: Ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Owen Kenneth Jones, 2 Glanrafon Terrace, a fu farw ar yr ail ar bymtheg o Ebrill yn 74 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd Bangor. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor dan ofal y Parch Carol Roberts a darllenwyd y deyrnged gan Emlyn Baylis. Y cludwyr oedd Brian Owen, Derek Owen, Keith Jones a Tecwyn Hughes. Y prif alarwyr oedd Heather Bloodworth a Dr Lionel Bloodworth (merch a mab yng nghyfraith); Hannah Bloodworth (wyres); Phyllys Jones, Ann Hughes (chwaer yng nghyfraith); Tecwyn Hughes a Glenda Hughes; (nai a'i wraig); Brian, Iola, Derek, Ann, Kath, Gerwyn, Ann, June a Dei, Keith a Sioned, Carys, Tecwyn a Linda (cefnfryd a chyfnitherod); Sandra a Jeff, Gwen a Cliff, Meical a Sharon, Iwan, Robat Henry, Mari, Eilir a Cerian (nai a nithoedd). Anfonwyd blodau gan y teulu a chafwyd lluniaeth yn Ty'n Llan, Nant Peris. Diolch i Gwynfor a Jane a fu'n gyfrifol am drefniadau'r angladd ac i Dr Robin Parry am ei gefnogaeth a'i ofal. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd.

Côr Meibion Caernarfon yn chwilio am aelodau newydd

Mae Côr Meibion Caernarfon yn chwilio am aelodau newydd er mwyn cynyddu'r nifer ym mhob llais - yn arbennig adrannau'r tenoriaid uchaf a'r baswyr isaf.

Meddai Bryn Griffith, Cadeirydd y Côr, 'Gwahoddwn gantorion o bob oed, profiadol a dibrofiad, o bell ac agos i ymuno â ni. Dim ots os nad ydynt wedi canu mewn côr o'r blaen, cyn belled â bod ganddynt leisiau da. Ac mae croeso i ganwyr profiadol ymuno â ni yn ogystal â'u côr presennol.

'Rydym yn ymarfer am tua dwy awr bob nos Fawrth yn Galeri, Caernarfon, am 7.45pm dan arweiniad ein Cyfarwyddwr Cerdd, Delyth Humphreys, a'n cyfeilydd, Mona Meirion Richards.'

Ychwanegodd Bryn, 'Cewch groeso ac fe wnewch ffrindiau da yng Nghôr Meibion Caernarfon. Ers i mi ymuno, cefais gyfle i ganu gydag artistiaid byd enwog yn neuaddau gorau'r wlad yn cynnwys Neuadd Symffoni Birmingham, Neuadd Dewi Sant Caerdydd a Neuadd Albert yn Llundain. Cafodd y côr sawl llwyddiant eisteddfodol a theithiodd yn eang ym Mhrydain, Iwerddon, cyfandir Ewrop a Gogledd America.

'Mae yma grefftwyr, athrawon, plismyn, ffermwyr, swyddogion llywodraeth leol, twrneiod, adeiladwyr, cyfrifwyr, gweithwyr ffatri a nifer wedi ymddeol. Mae'n lle ardderchog i gael cyngor a help gyda phob dim dan haul!

'Bydd y blynyddoedd nesaf yn ddiddorol a chyffrous i Gôr Meibion Caernarfon wrth inni nesáu at ein 50 mlwyddiant. I fynegi diddordeb mewn ymaelodi ffoniwch fi ar 01286 880291 neu gyrrwch neges drwy ein gwefan www.cormeibioncaernarfon.org

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

**SWIGOD
&
SEBON**

SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



Ar ben arall i'r lein

Gan fy mod yn mynd am ychydig o wyliau does ond rhyw bythefnos cwta ers yr adroddiad ddiwethaf, ac yn anffodus does dim llawer i'w nodi ar bysgota'r afonydd. Y rheswm, wrth gwrs, yw'r tywydd, yn enwedig yr oerni sy'n dod gyda'r hwyr. Ond, er arafwch y tair afon, mae llynnoedd Dywarchen, Nantlle a Cwellyn yn rhoi sioe arbennig i rhai sy'n dal ati.

Yn ystod yr ail wythnos o Ebrill fe aeth stoc cyntaf y flwyddyn o frithyll yr enfys i Dywarchen, mae rhain wedi bod yn atyniad ardderchog ond, wrth gwrs, rhaid newid tactegau, a'r ffordd i'w dal yw trwy ddefnyddio lein sy'n suddo'n gyflym, fel DT17 gyda rhyw ddeunaw modfedd o flaen llinyn a phlun Bolb Oren, a thynnu'r cwbl i mewn yn araf bach. A dyna i chi swper blasus. Ond yn fy nhyb i tydi brithyll yr enfys ddim yn blasu fel brithyll brown cynhenid, dyna fy ffefryn i.

Ond pan mae brithyll yr enfys ar gael ac i'r rhai sy'n hoffi coginio a eisiau rhoi blas ychwanegol i'r 'sgodyn yma, dyma be fydda i yn wneud. Ffiletio'r brithyll, crafu'r cennau oddi ar y croen, tipyn o bupur a halen môr, sleisen o lemon a thalp o fenyn heb ei halltu, lapio tafell o Ham Parma o amgylch pob ffilet, a phacedu pob un mewn ffoil crasu. Rhoi y cwbl mewn popty wedi ei dwymo (rhif nwy 5) am ddim mwy nac ugain munud. Chwarter awr i mi. A dyna i chi ginio gwerth i'w gael.

Gyda'r Brithyll Brown, does dim eisiau y fath drimings, ni raid ond ei orchuddio â blawd a'i roi yn y badell gyda thalp y fenyn, a'i droi nes i'r croen ddechrau crimpio. Dew! Rwy'n dechrau glafoerio. Mae'n siŵr nad oeddech wedi dychmygu fy mod yn gogydd pysgod o fri!

Yn ogystal, os byddaf mor ffodus â glanio eog at yr wyth bwys 'ma, mi fydda i yn ei fygu, mae peth yn dal yn y rhewgell ar ôl tymor 2012. Efallai bod agoriad ym mro'r Eco i agor bwyty pysgod a rhyw ambell ffesant a sguthan yn eu mysg. Os bydd modd cael rhywfaint o drefn ar dorgoch Padarn mae gennyf resipi ardderchog iddynt. Cofiwch ffonio i fwcio bwrdd.

Gan fy mod wedi cyfeirio at Padarn, mae'n amlwg fod cryn dipyn o waith yn mynd ymlaen yng ngwaith carthffosiaeth Llanberis, ond does dim i'w weld yn cael ei wneud i roi diwedd ar yr arllwysyadau o garthffos amrwd sy'n dal i gael ei ollwng i'r llyn o'r bibell dros y ffordd â Thafarn Tywysog Cymru, dyma hanner gwreiddyn y broblem.

Ond, i'r rhai sy'n cofio, fe adroddais ar ganlyniad cyfarfod o Fforwm Padarn yn ystod Hydref 2012, sef bod Dŵr Cymru wedi penderfynu pibellu holl garthion Llanberis i waith hynod

o dechnegol ym Mrynrefail. Tydi hyn ddim yn syniad da yn ein meddwl ni fel pysgotwyr, ond dyna oedd y penderfyniad. Amserlen y gwaith oedd tair blynedd, wel mae bron i wyth mis wedi mynd heibio a does dim newydd o gwbwl fod yr addewid yma am ei gyflawni. Rwyf wedi gofyn i'r corff newydd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, i drefnu cyfarfod ar frys o Fforwm Padarn er mwyn ceisio cael rhyw wybodaeth ar be sy'n mynd ymlaen. Siop shafings go iawn!

Fel y gwyddoch roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn archwilio'r posibilrwydd o erlyn y cwmnïau sydd wedi bod yn gyfrifol am broblemau difrifol y llyn. Roedd penderfyniad i fod i gael ei wneud fisoedd yn ôl, ond er fod enw newydd ar y corff yma mae'r meddylfryd yn dal yr un fath. Cawn weld be a ddaw.

Cefais fy nwylo, rai misoedd yn ôl, ar lyfryn Hanesion ac Arferion Llên-Gwerin Cymru gan T. Gwynn Jones. Mae cryn dipyn am yr hen fro yma ynddo, yn enwedig y pysgod yn Ffynnon Peris, Nant Peris. Hefyd arferion y Tylwyth Teg yr wyf mor hoff o gyfeirio atynt. Rwyf hefyd yn cael cryn dipyn o hanesion yr ysbrydion sy'n dal i ymddangos yn lleol, yr un diweddaraf a ymddangosodd ychydig yn ôl yn un o westai moethus y fro.

Oes, mae pob math o bethau yn ein mysg, a neb gyda esboniad pendant. Digon hawdd dweud mai ofergoeledd yw popeth ond, yn y byd pysgota ar adegau, mae rhyw deimlad yn eich cyffwrdd, a wyddoch chi be, o fewn ychydig bydd pysgodyn wedi ei fachu. I'r rhai sy'n diystyru popeth fel hyn buaswn yn awgrymu i chi wario rhyw awr ddwy ar ôl iddi nosi ar lan y Seiont, yng nghyffiniau hen waith brics Caernarfon. Dyma'r lle a elwid yn Comin Morfa ble roedd dienyddio yn cymryd lle hyd at oddeutu 1823. Does dim dwywaith fod awyrgylch milain ac annifyr yn dal i fod fel planced dros y lle - lle i godi gwallt eich pen.

Ond wrth droi yn ôl at lyfr T. Gwynn Jones, dyma mae'r awdur yn ddweud yn ei gyflwyniad:

'Er cof am fy nhad, "a wyddai ac a ddeallai".

Oes mae llawer iawn yn ein mysg yn gwybod yn iawn be roedd o'n feddwl.

Hwyl am y tro

Huw Price Hughes

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN I G = 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

FINE ART
ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd

ERDF
Europe & Cymru: Rhwyddwch yn eiddoedd
Cwmni Cymru: Fforddau arian
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

wcva
Welsh Community Voluntary Association
Supporting voluntary and community groups

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
yholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

COFIO 5: DIFYRYWLLITH OEDFA'R LLAIN



Mae'n fore gwyntog, oer o Fai yn Neiniolen felly beth gwell na thrafod CRICED! A hynny, yng nghwmni un o wir ddilynwyr y gêm sef Canon Idris Thomas. Bu Idris yn gefnogwr selog o Forgannwg ers sawl tymor. Dyma Idris yn hel atgofion yn ei eiriau ei hun.

"Yn blant yn Ninorwic ein 'cae' criced oedd y Bonc, lle gwastad a'r tir yn gymysgedd o lechfaen a gwair. Y wiced oedd slab o lechen a'r ffin hen bolyn teligraff.

Gêm di-amser oedd criced i ni. Cryn ddilyn ar Forgannwg, tîm Lloegr, ac enwau sêr y gwledydd pell hefyd yn gyfarwydd.

Cofiaf am fachgen o ardal Wrecsam ddeuai am bythefnos o wyliau haf at ei daid a nain i Fron Heulog. Roedd ganddo offer criced tu hwnt i gyrraedd ein pocedi llwm ni. Parod oedd i rannu a byddai sglein ar y llain o flaen Fron Heulog am bythefnos.

Ychydig o griced oedd yn yr Ysgolion Cynradd a Brynrefail. Rhyw lain tarmac oedd ym Mrynrefail â bel yn tasgu ac adlamu i bob cyfeiriad ac uchder. (Yr un yw fy atgofion yn Nyffryn Ogwen gyda Joe P.T. yn grediniol mai ef oedd Freddie

Trueman.)

Pan euthum i Goleg Llanbed yn 1968 cefais dair tymor braf o chwarae'r gêm. Roedd fy nhad yng nghyfraith, Handel Evans, wedi chwarae i Lanbed ers sawl tymor. Chwarae ar feysydd braf fel ysgolion Llanymddyfri ac Aberhonddu. Sawl clwb lleol. Sylwi yno fod hyfforddiant criced yn fwy datblygiedig yn siroedd y De. Nifer o fy nghyd chwaraewyr wedi cynhyrchioli timau eu siroedd. Dyddiau braf oedd 'hafau' Llanbed.

Tra'n Offeiriad yn Nhrefor deuthum yn Ysgrifennydd Clwb Criced Trefor, a leolwyd ar dir y Ganolfan. Yna, ymuno a Chynghrair Ganol Wythnos Ardal Pwllheli. Gemau rheolaidd ar lain braf Bodegroes yn Efailnewydd. Y gwrthwynebwyr fyddai timau cwmnïau, Ysgol Glan y Môr, a'r Cyngor Dosbarth Dwyfor. Bowliwr 'cyflym' oeddwn i ac yn ystod y cyfnod cefais y ffugenw cellweirus 'Vicious Vic' ar sail y cyflymdra, ddaeth a sawl wiced i mi. Gêm hamddenol o gystadleuol a chymeriadau fel Douglas John a Tal chwimwth yn britho'r atgofion.

Bum yn wylwr brwd o Forgannwg ers sawl tymor.

Deuai'r meibion Rhodri, Meilir ac Osian (a'u mam weithiau) gyda mi. Er mor wych cyfleusterau y Swalec, yr hoff gae oedd Sain Helen, Abertawe. Yno roedd awyrgylch gynnes, groesawgar a thafodiaeth Cymoedd Tawe, Myrddin ac Aberteifi yn plethu'n un gôr o gefnogaeth. John Williams a'i griw o Falconiers a'u lluniaeth parod yn ategu at gynhesrwydd Sain Helen.

Dros un haf cyfnod Llanbed gweithiais fel porter yn Ysbyty Singleton. Cyfle gwych i bigo draw i Sain Helen yn aml. Ar lygaid y cof mae perfformiadau Alan Jones, Don Sheperd, Mathew Maynard, Hugh Morris, Steve James, Steve Watkin, Croft a Barwick yn dal i aros. Heb son am y tramorwyr gwych fel Viv Richards, Majid Khan a Javed Miandad.

Mae mynd i Fae Colwyn yn flynyddol i wyluo Morgannwg yn rhoi mwynhad, er yn petruso fod elfen 'Gymreig' y tim yn gwanhau yn ddiweddar. Mae dau o hogiau Deiniolen John Wyn Roberts a Dyfrig Thomas wedi dal uchel swyddi gyda chlwb Bae Colwyn. Mor barod eu croeso ydynt i ni 'hogia'r topia'. Trueni na ddeuai Morgannwg yno'n amlach!

Disgrifiad gorau o griced i mi yw geiriau'r anfarwol John Arlott 'mai gwareiddiad yn yr haul yw criced'. Cofiaf angladd plwyfolyn yng Nghlynnog, Charles Damarell oedd yn ddyfarnwr ac uchel swyddogyn ar Fwrdd Criced Cymru a dweud fod ei 'ail fatiad' ar gychwyn. Wrth gwrs, yr oedd."

Diolch i Idris, a braf cofnodi bod dau o Fro'r Eco, Sion Evans (Penisarwaun) ac Ian Morgan (Bethel) yn aelodau selog o dim cyntaf Bangor.

Ras Moel Eilio.

Nid brwydro'n erbyn y dringfeydd serth yn unig roedd y pedwar ugain a heriodd y pedwar copa eleni. Er cael ambell ysbaid heulog – ar ddechrau a diwedd y ras, bu'r tywydd yn her ychwanegol, gyda chawodydd trymion o law, gwyntoedd cryfion a chenllysg miniog ar hyd y copaon.

Roedd aelodau Clwb Rhedwyr Eryri yn amlwg iawn yn y ras, gyda'r mwyafrif o'r deg cyntaf yn perthyn i'r clwb. Ac yr oedd rhedwyr lleol yn amlwg hefyd, gyda Hugh O'Donnell yn dychwelyd i Lanberis a gorffen yn drydydd, Dyfed Thomas o Lanrug yn nawfed ac Ian Jones o Lanberis yn ddegfed.

Aeth y merched lleol un yn well, gydag Ali Thomas o Lanberis yn ennill y ras i ferched dros 40 oed a Maggie Oliver o Ddinorwig yn ennill yn yr adran dros 60 oed.

Roedd holl elw'r ras yn mynd tuag at elusen ymchwil cancr.

TLWS YRECO 2013

Y bwriad yw cynnal y gystadleuaeth eleni dros ddwy noson. Bydd y gystadleuaeth dan 9 yn Lanrug ar nos Iau, Gorffennaf 11 I ddechrau am 6pm. Bydd y gystadleuaeth dan 11 nos Wener, Gorffennaf 12 yn Lanberis hefyd am 6pm. Timau gyda charfan o 10 chwaraewr (8 pob ochr ar y cae) a'r cost arferol o £10 y tim. Enwau'r timasu i mi cyn gynted a phosibl.

Fe gynhelir y gystadleuaeth bêl-rwyd ar y nos Iau (11/7) am 6pm ar iard Ysgol gynradd Llanrug.

Arwyddo i Gaer.



Llongyfarchiadau i Jack Burman o Lanrug ar gael ei arwyddo gan dim peldroed Chester F.C. Bydd yn teithio i Gaer i ymarfer bob nos Iau.

Cwpan Ysgol Sul

trnamaint pêl-droed 5-yr-ochr

Plant Blwyddyn 3-6

Saradwr gwadd

Diodydd a chreision

6.00 - 8.30 yh

Nos Fercher

Mehefin 26

Cae Chwarae

Ysgol Llanrug

I gofrestru tîm ffoniwch: 07929916181
neu e-bostiwch: gosodcoeden@hotmail.com

Beiciwr
llwyddiannus.

Am rhyw reswm, nid yw'r Daily Post na'i chwaer bapur yr Herald wedi rhoi fawr o sylw i lwyddiannau Gareth McGuinness o Lanrug. Ond mae'n parhau i ennill rasys beics led-led y wlad. Dair wythnos yn ol enillodd yn Nantwich, swydd Caer, ond daeth ei fuddugoliaeth ddiweddaraf yn Llanandras mewn ras 50 milltir dros fryniau de-ddwyrain Cymru.

Roedd cyfyngiad o 80 o feicwyr yn cael cystadlu, ac yn eu plith roedd Matt Pospel, beiciwr profiadol iawn sydd eisoes wedi cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

Ar fore'r ras cynhaliwyd Prolog o rasio cyflym, a phob beiciwr yn cael ei amseru. Y beiciwr rhyngwladol oedd ar y blaen, gyda Gareth 6 eiliad o'i ol yn y trydydd safle. Byddai angen i Gareth ennill ras fawr y prynhawn o dros 6 eiliad i gipio'r wobr: tasg go anodd o gofio fod eiliadau mewn cystadleuthau beicio yn gallu bod yn amser hir iawn!

Roedd ras y pnawn yn cynnwys pump lap o ddeng milltir, gyda mil o droedfeddi o ddringo ar bob lap.

Arhosodd pac o feicwyr gyda'i gilydd nes i Gareth benderfynu ymosod gyda hanner lap i fynd, ac ar y ddringfa olaf un, torrodd yn rhydd, gan adael y lleill o'i ol. Erbyn cyrraedd copa'r ddringfa roedd ugain eiliad ar y blaen, a chadwodd y pellter hwnnw rhyngddo a'r gweddill hyd y diwedd, gan ennill o bedair eiliad ar ddeg.

Mae'r 'Eco' yn falch o gofnodi llwyddiant lleol mewn camp nad yw'n cael y sylw haeddiannol gan bapurau dyddiol eraill.

RHEDEG MYNYDD

Mae rasys nos Fawrth yn mynd o nerth i nerth, ac yn hynod boblogaidd. Mae Mathew Roberts o Lanberis yn benderfynol o ddal gafael yn y bencampwriaeth, ac yn ystod y mis diwethaf enillodd ddwy ras arall, sef Moel y Gest a'r Gogarth. Mae'r cystadlu yn yr adrannau oedran yn glos iawn ar hyn o bryd, a gall canlyniadau'r rasys olaf benderfynu pwy sy'n cael y gwobrau ar ddiwedd y gyfres.

Llongyfarchiadau i.... Mathew Roberts ar ennill medal arian ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd Siroedd Prydain yn Settle yn ystod y mis. Roedd yn cynrychioli 'sir' gogledd Cymru, ac yn aelod o'r tim a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i.... Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr am ennill medal efydd yn yr un gystadleuaeth, a hithau'n cynrychioli merched iau gogledd Cymru a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i... Phil Jones o'r Waunfawr ar ennill yr adran dros 60 oed yn Ras 10 cilomedr Rhostryfan.

Llongyfarchiadau i.... Paul Jenkinson o'r Waunfawr am ddod yn drydydd dros 45 oed yn Ras y Barcud Coch ym Mhonterwyd, gan redeg hanner marathon ar gwrs anodd drwy'r goedwig mewn amser o awr a 49 munud.

Llongyfarchiadau iDyfed Thomas o Lanrug ar ddod yn ail yn Ras y Diafol ym Mhonterwyd, a rhedeg deunaw milltir ar lwybrau coedwig mewn amser o ddwy awr a chwe munud.

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Isdeitlau
Subtitles

Clwb
Pêl-droed
Malcolm Allen
9.30
6 Mehefin
Sut hwyl gaiff Malcs yn
hyfforddi tîm cymêrs Llanbêr?
s4c.co.uk

Chwaraeon

Cofnodi Blwyddyn



Clwb pêl-droed Llanberis sy'n cael y prif sylw y tro yma. Bu yn dymor hir i'r tim ifanc yma a byddent yn falch o'u hymdrechion yn enwedig o gofio cyflwr echrydus maes Ffordd Padarn ar brydiau. Serch hynny, o wrando ar nifer o'r 'hen bennau' ar yr ystlus mae arwyddion 'hel tim' arall yma. Er teg dweud, roedd ambell un yn poeni am ambell glwb allai ddenu rhai o'r ieuencid o

Ffordd Padarn.

Boddi yn ymyl y lan bu hi mewn sawl cwpan, ond bydd y tim yn hapus iawn(?) drwy orffen yn seithfed yn y gynghrair – un safle a dau bwynt tu ôl i Lanrug! Gyda llaw, cafwyd dwy chwip o gemau darbi â ddenodd dorfeydd sylweddol. Yn wir, gall y ddau glwb ymfalchio fod cyfartaledd eu torfeydd i gemau cartref yn bychanu y Gynghrair Genedlaethol. Rhywbeth am

hogia lleol, ysbryd gymunedol ac ymdrech tybed!

Bydd y clwb yn dal i gael sylw yn ystod misoedd yr haf. Bydd cyfres CPD Malcs yn dechrau ar S4C ar nos Iau, Mehefin 6ed. Bu camerau yn dilyn y clwb trwy'r tymor, yn 'bryf ar y wal' fel petai. Bu gryn sylw i'r cefnogwyr, ac edrychwn ymlaen at eu 'barn' ddi-flewyn ar dafod. Dim gormod o **** gobeithio! Hefyd, sut reolwr ydy Terry Saynor? Oes ganddo

'beiriant sychu gwallt'? Mae'n siwr hefyd y bydd ambell i eiliad Wali. Edrychwn ymlaen at y rhaglen yn arw.

Bu dau achlysur yn ddiweddar yn gysylltiedig â'r rhaglen. Daeth Chris Coleman draw i gynnal sesiwn hyfforddi gyda'r garfan. Cafwyd sesiwn buddiol ar y cae, ac yna sesiwn holi ac ateb. Mae'n rhaid fod rhywbeth wedi tycio gan i Lanber guro Llanrug 2-0 ar Eithin Duon mewn ychydig ddyddiau.

I goroni'r tymor cynhaliwyd gêm rhwng cyn-chwaraewyr a'r garfan bresennol. Rwyn siwr fod rhai yn dal i frifo. Cafwyd awyrgylch braf, yn adlewyrchu yr hyn sy'n gysylltiedig â'r clwb erioed – yr ymrwymiad sy'n aros.

Ond nid dyna ddiwedd y tymor. Ym mis Mehefin mae carfan Llanberis yn hedfan draw i'r Eidal i chwarae yn erbyn eu geffeilldre. Llanber yn Ewrop – tipyn o stori!

Dymunaf yn dda iddynt, ond ar ran yllu o gyn-chwaraewyr a gofiai y diweddar Arfon Phillips yn rhoi 50c 'pres tè' i ni – a'i gofnodi yn y llyfr bach enwog – sut oedd Malcolm Allen yn cael £5 y gêm yn 15 oed? Llongyfarchiadau i Malc ar ei urddo i'r Orsedd. Hartson ac Allen – dylsai fywiogi'r lle!

Diolch i Brian Wakeham ac Eurwyn Thomas am y lluniau o'r ddau achlysur diweddaraf.



Llanc y Llechen

Roedd glannau Llyn Padarn a chaeau'r Ddôl yn Llanberis yn ferw o gystadleuwyr fore Sul, 19eg o Fai, pryd y cynhaliwyd Triathlon Llanc y Llechen, wedi ei threfnu gan gwmni lleol Camu i'r Copa (Always Aim High). Roedd dros fil o gystadleuwyr wedi archebu lle ers rhai misoedd, a gallai'r trefnwyr yn hawdd fod wedi dyblu'r niferoedd, cymaint y galw am gael cymryd rhan yn un o driathlons mwyaf poblogaidd gwledydd Prydain. Eleni roedd cwmnïau teledu yn ei ffilmio i'w

dangos ar Sianel 4 ac Eurosport. Mae'n sicr fod y golygfeydd godidog ar hyd y cwrs yn denu eu sylw hefyd.

Cychwyn y ras oedd nofio mil o fetrau yn nyfroedd oer Llyn Padarn: pedair ton o ddau gant o nofwyr yn eu tro, a thon arall yn dilyn yn y triathlon llai (gyda'r enw hollol anaddas "Sprint"!). Beicio wedyn i fyny Bwlch Llanberis a thrwy Ddyffryn Mymbyr, Nant Ffrancon a Dyffryn Ogwen cyn troi drwy Bentir a throsodd i Frynrefail cyn dychwelyd i Lanberis. Ac

wedi'r ymdrech honno, rhedeg deg cilomedr ar lwybrau geirwon drwy hen chwarel Dinorwig.

Dim ond i Ben y Gwryd ac yn ôl roedd angen beicio yn y "Sprint", a doedd dim angen rhedeg y cwrs llawn. Ond roedd hon ynddi ei hun yn ddigon o her i unrhyw athletwr. Huw Brassington o Landwrog oedd yn fuddugol yn y "Sprint" ac Owain James o Ddeiniolen yn bedwerydd.

Ein llongyfarchiadau i bawb lleol a gwblhaodd y triathlon llawn a'r Sprint, ac o wrando gwahanol sgysiau ar Gae'r Ddôl y bore

hwnnw, gallwn ddisgwyl gweld llawer mwy o hogia a genod lleol yn cystadlu y flwyddyn nesaf!

Roedd y trefniadau ar y diwrnod yn arbennig o effeithiol, gan gadarnhau fod Llanberis yn llawn haeddiannol o'r teitl 'Prifddinas Chwaraeon Antur Cymru'.

Triathlon Rhuthun.

Yngynharach yn ymiscynhaliwyd triathlon yn nyffryn Clwyd, ac unwaith eto, roedd hogia lleol yn llwyddiannus. Daeth Owain James yn bedwerydd, a Phil Lynes, Llanrug yn gyntaf yn y grwp oedran dan 30 oed.